



# Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

2023 dsc 4

Nodiadau Esboniadol

# Agriculture (Wales) Act 2023

2023 asc 4

Explanatory Notes

**£19.35**





# Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

2023 dsc 4

Nodiadau Esboniadol

# Agriculture (Wales) Act 2023

2023 asc 4

Explanatory Notes

## **DEDDF AMAETHYDDIAETH (CYMRU) 2023**

### **NODIADAU ESBONIADOL**

#### **CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ("y Ddeddf") a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 17 Awst 2023.
2. Fe'u lluniwyd gan Adran Materion Gwledig Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf.
3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf, a phan na fo angen esboniad na sylw ar adran unigol o'r Ddeddf, nis rhoddir.

#### **TROSOLWG CYFFREDINOL O'R DDEDDF**

4. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith statudol newydd ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy ("RhTG") yng Nghymru.
5. Mae'r Ddeddf yn sefydlu'r amcanion RhTG yn fframwaith trosfwaol ar gyfer polisi amaethyddol, gan ei fod yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arfer swyddogaethau penodol yn y modd y maent yn ystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. Gwneir darpariaeth ar gyfer monitro ac adrodd manwl: y bwriad yw caniatáu asesu cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion, darparu sylfaen dystiolaeth bwysig, a hwyluso craffu ac atebolrwydd.
6. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth, ac mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth. Mae'r Ddeddf hon yn rhestru dibenion penodol y caiff cymorth ei ddarparu ar eu cyfer (er y caiff hefyd ei ddarparu ar gyfer dibenion eraill nad ydynt wedi eu rhestru). Mae'r dibenion hyn yn cynnwys dibenion sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd, newid yn yr hinsawdd, nwyon tŷ gwydr, ansawdd yr aer ac ansawdd dŵr ac iechyd anifeiliaid. Rhaid i Weinidogion Cymru arfer y pŵer o gymorth yn y modd y maent yn ystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion RhTG. Y bwriad yw y bydd y dull integredig hwn yn galluogi'r cynhyrchiant cynaliadwy o fwyd a nwyddau eraill ochr yn ochr â chyflawni'r camau gweithredu i gefnogi'r amcanion eraill sy'n ymwneud â RhTG.
7. Caniateir hefyd arfer y pŵer o gymorth mewn cysylltiad â gweithgareddau penodol sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth. Diffinnir rhain yn y Ddeddf fel "gweithgareddau ategol".

# **AGRICULTURE (WALES) ACT 2023**

---

## **EXPLANATORY NOTES**

### **INTRODUCTION**

1. These Explanatory Notes are for the Agriculture (Wales) Act 2023 (“the Act”) which received Royal Assent on 17 August 2023.
2. They have been prepared by the Rural Affairs Department of the Welsh Government in order to assist the reader of the Act.
3. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but they are not a part of it. They are not meant to be a comprehensive description of the Act, and where an individual section of the Act does not require explanation or comment, none is given.

### **GENERAL OVERVIEW OF THE ACT**

4. The Act provides a new statutory framework for Sustainable Land Management (“SLM”) in Wales.
5. The Act establishes the SLM objectives as the overarching framework for agricultural policy, in that it imposes a duty on the Welsh Ministers to exercise certain functions in the way they consider best contributes to achieving the SLM objectives. Provision is made for detailed monitoring and reporting: the intention is to permit assessment of progress towards achieving the objectives, to provide an important evidence base, and to facilitate scrutiny and accountability.
6. The Act confers a power on the Welsh Ministers to provide support for agriculture, and in connection with agriculture. This Act lists specific purposes for which support may be provided (although it may also be provided for other purposes that are not listed). These purposes include purposes relating to food production, climate change, greenhouses gases, air and water quality and animal health. The Welsh Ministers must exercise the power of support in the way they consider best contributes to achieving the SLM objectives. The intention is that this integrated approach will enable the sustainable production of food and other goods alongside the delivery of actions in support of the other SLM objectives.
7. The power of support may also be exercised in respect of certain activities connected to agriculture. These are defined in the Act as “ancillary activities”.

8. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth arall sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol sy'n disodli'r ddarpariaeth bresennol (sydd â therfyn amser iddi) ar gyfer Cymru yn Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 (y cyfeirir ati drwy'r Nodyn Esboniadol hwn fel "Deddf 2020"). (Mae hefyd yn diddymu'r Atodlen honno ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 2020.)
9. Mae'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 er mwyn ehangu pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf honno, fel eu bod yn gallu gwneud rheoliadau sy'n caniatáu i denant daliad amaethyddol gael gafael ar weithdrefnau cymrodeddu, pan fo landlord wedi gwrthod cais i amrywio tenantiaeth, neu gais am ganiatâd, a wnaed at ddibenion y tenant i gael mynediad at fathau penodol o gymorth (gan gynnwys cymorth a ddarperir o dan adran 8).
10. Mae'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 i ganiatáu i'r tenant o dan denantiaeth busnes fferm gael gafael ar weithdrefnau cymrodeddu, pan fo landlord wedi gwrthod cais i amrywio'r denantiaeth, neu gais am ganiatâd, pan wnaed y cais at ddibenion penodedig. Y dibenion hynny yw: yn gyntaf, galluogi'r tenant i gael gafael ar fathau penodol o gymorth (gan gynnwys cymorth a ddarperir o dan adran 8); ac yn ail, cydymffurfio â dyletswydd statudol. Mae adran 8A(7) o Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â chymrodeddu o'r fath. Mae geiriad hefyd wedi ei fewnosod yn Neddf 1995 yn nodi'r gofynion gweithdrefnol ar gyfer unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 8A.
11. Mae'r Ddeddf yn diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 er mwyn galluogi ychwanegu amodau pellach at drwyddedau cwmpo coed ac i alluogi trwyddedau i gael eu diwygio, eu hatal dros dro neu eu dirymu mewn amgylchiadau penodol.
12. Mae'r Ddeddf yn diwygio Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 er mwyn gwahardd y defnydd o faglau (ac atalyddion cebl eraill) a thrapiau glud.
13. Mae'r Ddeddf yn cynnwys 57 o adrannau a 3 Atodlen. Rhennir y Bil i 6 Rhan fel a ganlyn:

**Rhan 1 - Rheoli Tir yn Gynaliadwy**

**Rhan 2 - Cymorth ar gyfer amaethyddiaeth etc.**

**Rhan 3 - Materion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol**

**Rhan 4 - Coedwigaeth**

**Rhan 5 - Bywyd Gwylt**

**Rhan 6 - Cyffredinol**

**Atodlen 1 - Cynhyrchion amaethyddol sy'n berthnasol i ddarpariaethau safonau marchnata**

**Atodlen 2 - Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol etc. sy'n ymwneud â Rhannau 1 i 3**

**Atodlen 3 - Diwygiadau canlyniadol etc. i'r Rheoliad CMO**

8. The Act makes other provision relating to agriculture and agricultural products that replaces existing (time-limited) provision for Wales in Schedule 5 to the Agriculture Act 2020 (referred to in throughout this Explanatory Note as “the 2020 Act”). (It also repeals that Schedule and makes consequential amendments to the 2020 Act.)
9. The Act makes amendments to the Agricultural Holdings Act 1986 to expand the Welsh Ministers’ regulation-making powers under that Act, so as to enable them to make regulations permitting the tenant of an agricultural holding to access arbitration procedures, where a landlord has refused a request for the variation of a tenancy, or a request for consent, that was made for the purposes of the tenant accessing certain forms of support (including support provided under section 8).
10. The Act makes amendments to the Agricultural Tenancies Act 1995 to permit the tenant under a farm business tenancy to access arbitration procedures, where a landlord has refused a request for the variation of the tenancy, or a request for consent, where the request was made for specified purposes. Those purposes are: first, to enable the tenant to access certain forms of support (including support provided under section 8); and second, to comply with a statutory duty. Section 8A(7) of the Agricultural Tenancies Act 1995 also provides the Welsh Ministers with a regulation-making power to make provision in connection with such arbitration. Wording is also inserted into the 1995 Act setting out the procedural requirements for any regulations made under section 8A.
11. The Act amends the Forestry Act 1967 to enable further conditions to be added to felling licences and to enable licences to be amended, suspended or revoked in certain circumstances.
12. The Act amends the Wildlife and Countryside Act 1981 to prohibit the use of snares (and other cable restraints) and glue traps.
13. The Act comprises 57 sections and 3 Schedules and is divided into 6 Parts as follows:

**Part 1 – Sustainable Land Management**

**Part 2 – Support for agriculture etc**

**Part 3 – Matters relating to agriculture and agricultural products**

**Part 4 – Forestry**

**Part 5 – Wildlife**

**Part 6 – General**

**Schedule 1 - Agricultural products relevant to marketing standards provisions**

**Schedule 2 - Minor and consequential amendments etc. relating to Parts 1 to 3**

**Schedule 3 - Consequential amendments etc. to the CMO Regulation**

## **SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU**

### **RHAN 1 - RHEOLI TIR YN GYNALIADWY**

#### **Yr amcanion**

14. Mae'r Rhan hon o'r Ddeddf yn nodi pedwar amcan RhTG ac yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arfer swyddogaethau penodol yn y modd y maent yn ystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion hynny. Yr amcan yw sicrhau bod y sector amaethyddol yng Nghymru yn cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy, yn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt, a hefyd yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.
15. Un o nodweddion pob un o'r amcanion yw'r bwriad i ddiwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau - sef rhywbeth sy'n adlewyrchu'r "egwyddor datblygu cynaliadwy" yn adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ogystal, bwriedir i bob amcan ategu'r nodau llesiant yn adran 4 o'r Ddeddf honno, a gynlluniwyd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
16. Mae'r fframwaith RhTG, sy'n cynnwys yr amcanion RhTG a'r ddyletswydd RhTG, wedi ei ddatblygu drwy broses ymgynghori gynhwysfawr a gofnodwyd yn Brexit a'n Tir<sup>1</sup>, Ffermio Cynaliadwy a'n Tir<sup>2</sup>, a Phapur Gwyn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)<sup>3</sup>. Maent hefyd yn cyd-fynd â rhaglenni a mentrau rhyngwladol megis rhaglen y Cenhedloedd Unedig, "Decade on Ecosystem Restoration 2021-2030", a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth 2019.

#### **Adran 1 - Yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy**

17. Mae adran 1 yn sefydlu pedwar amcan RhTG.
18. Mae is-adran (2) yn darparu mai'r amcan cyntaf yw cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy. Yn ymarferol, mae hyn yn debygol o ofyn am ganolbwyntio ar gynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol, yn economaidd ac yn gymdeithasol, sy'n hyrwyddo safonau uchel o iechyd a lles anifeiliaid ac sy'n diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i wneud yr un fath.
19. Mae is-adran (6) yn darparu, at ddibenion yr amcan cyntaf, fod ffactorau perthnasol o ran pa un a yw bwyd a nwyddau eraill yn cael eu cynhyrchu mewn modd cynaliadwy yn cynnwys gwytnwch busnesau amaethyddol o fewn y cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt a'u cyfraniad i'r economi leol, ymysg pethau eraill.
20. Mae is-adran (3) yn darparu mai'r ail amcan yw lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd.

---

<sup>1</sup> [Brexit a'n Tir - diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru \(llyw.cymru\)](#) (2018)

<sup>2</sup> [Ffermio Cynaliadwy a'n Tir \(llyw.cymru\)](#) (2019)

<sup>3</sup> [Papur Gwyn Amaeth \(Cymru\) \(llyw.cymru\)](#) (2020)



## COMMENTARY ON SECTIONS

### PART 1 – SUSTAINABLE LAND MANAGEMENT

#### The objectives

14. This Part of the Act sets out four SLM objectives and imposes a duty on the Welsh Ministers to exercise certain functions in the way they consider best contributes to achieving those objectives. The objective is to ensure that the agricultural sector in Wales produces food and other goods in a way which is sustainable, responds to the climate and nature emergencies, conserves and enhances the countryside and cultural resources and promotes public access to them, and also promotes and facilitates use of the Welsh language.
15. A feature of each of the objectives is the intention to meet the needs of the present without compromising the ability of future generations to meet their needs – something that mirrors the “sustainable development principle” in section 5 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. In addition, each objective is intended to complement the well-being goals in section 4 of that Act, designed to improve the economic, social, environmental and cultural well-being of Wales.
16. The SLM framework, consisting of the SLM objectives and SLM duty, has been developed through a comprehensive consultation process documented in *Brexit and our Land*<sup>1</sup>, *Sustainable Farming and our Land*<sup>2</sup>, and the *Agriculture (Wales) Bill White Paper*<sup>3</sup>. They are also in line with international programmes and initiatives such as the UN’s “Decade on Ecosystem Restoration 2021-2030”, declared on 1 March 2019.

#### Section 1 – The sustainable land management objectives

17. Section 1 establishes four SLM objectives.
18. Subsection (2) provides that the first objective is to produce food and other goods in a sustainable manner. In practice, this is likely to require a focus on producing food and other goods in a way that is environmentally, economically and socially sustainable, that promotes high standards of animal health and welfare and that safeguards the ability of future generations to do the same.
19. Subsection (6) provides that for the purposes of the first objective, factors relevant to whether food and other goods are produced in a sustainable manner include, among other things, the resilience of agricultural businesses within the communities in which they operate and their contribution to the local economy.
20. Subsection (3) provides that the second objective is to mitigate and adapt to climate change.

---

<sup>1</sup> [Brexit and our land - securing the future of Welsh farming \(gov.wales\)](#) (2018)

<sup>2</sup> [Sustainable Farming and our land \(gov.wales\)](#) (2019)

<sup>3</sup> [Agriculture \(Wales\) White Paper \(gov.wales\)](#) (2020)

21. Mae lliniaru newid yn yr hinsawdd yn debygol o gynnwys lleihau newid yn yr hinsawdd drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithredol ac allyriadau nwyon tŷ gwydr ymgorfforedig yn ogystal â chynnal a chynyddu gallu'r tir amaethyddol i ddal ac atafaelu carbon. Allyriadau gweithredol yw'r rheini sy'n cael eu hallyrru wrth gwblhau gweithred, ac allyriadau ymgorfforedig yw'r rheini sy'n cael eu hallyrru gan gynnwyrch neu ddeunydd wrth eu cynhyrchu a'u cludo (e.e. allyriadau yn sgil cynhyrchu gwrtaith).
22. Mae addasu i newid yn yr hinsawdd yn debygol o gynnwys gweithredu i leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Gall y camau gweithredu hyn gynnwys, er enghraifft, newidiadau mewn arferion er mwyn sicrhau'r cynhyrchiant parhaus o fwyd a nwyddau eraill, mesurau rheoli llifogydd yn naturiol a'r defnydd o goed i roi cysgod.
23. Mae is-adran (4) yn darparu mai'r trydydd amcan yw cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu. Gall cynnal gwytnwch ecosystemau ofyn am reoli ecosystemau yn weithredol a champau gweithredu i atal dirywiad. Gall gwella gwytnwch ecosystemau ofyn am, er enghraifft, fesurau megis creu cynefinoedd a newidiadau mewn arferion (e.e. camau gweithredu yn ymwneud ag ansawdd dŵr).
24. Mae is-adran (7) yn disgrifio ffactorau penodol sydd (ymysg eraill) yn berthnasol i wytnwch ecosystemau at ddibenion y trydydd amcan. Gall ecosystemau gwydn, er enghraifft, fod yn fwy bioamrywiol, a all fod o gymorth i arafu a gwrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth, ac â'r gallu i addasu'n fwy i newid, gan gynnwys effeithiau newid yn yr hinsawdd.
25. Gall y manteision a geir gan ecosystemau gwydn gynnwys, er enghraifft, aer glân, dŵr glân, storio carbon yn well, gwell iechyd pridd a chynnydd ym mhresenoldeb ac effeithiolrwydd peillwyr.
26. Mae is-adran (5) yn darparu mai'r pedwerydd amcan yw cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.
27. Mae'r pedwerydd amcan yn ymwneud â diogelu, cynnal a gwella adnoddau diwylliannol a chefn gwlad, a hyrwyddo mynediad ac ymgysylltiad â hwy. Mae cefn gwlad yn cynnwys, er enghraifft, tir amaeth a choetir, yn ogystal â phrydferthwch yr amgylchedd naturiol. Gall adnoddau diwylliannol gynnwys, er enghraifft, safleoedd ac adeiladau hanesyddol. Mae'r amcan hwn hefyd yn ymwneud â chynnal y Gymraeg, er enghraifft drwy gefnogi pobl a chymunedau sy'n defnyddio'r Gymraeg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg er mwyn codi ymwybyddiaeth a chyfleoedd i'w defnyddio a'i lledaenu.
28. Mae is-adran (8) yn diffinio "adnoddau diwylliannol" at ddibenion y pedwerydd amcan.

21. Mitigating climate change is likely to involve reducing climate change through the reduction of operational and embedded greenhouse gas emissions as well as maintaining and increasing the capacity of agricultural land to drawdown and sequester carbon. Operational emissions are those emitted through the carrying out of an action, and embedded emissions are those emitted by a product or material in its production and transportation (e.g. emissions from the production of fertiliser).
22. Adapting to climate change is likely to involve taking action to minimise the effects of climate change. These actions may include, for example, changes in practice to ensure the continued production of food and other goods, natural flood management measures and the use of trees to provide shade.
23. Subsection (4) provides that the third objective is to maintain and enhance the resilience of ecosystems and the benefits they provide. Maintaining ecosystem resilience may require active management of ecosystems and actions to prevent degradation. Enhancing ecosystem resilience may require, for example, measures such as habitat creation and changes in practice (e.g. actions relating to water quality).
24. Subsection (7) describes specific factors that (among others) are relevant to the resilience of ecosystems for the purposes of the third objective. Resilient ecosystems, for example, may be more biodiverse, which can help to slow and reverse biodiversity decline, and more adaptive to change, including the effects of climate change.
25. The benefits provided by resilient ecosystems can include, for example, clean air, clean water, enhanced carbon storage, improved soil health and the increased presence and effectiveness of pollinators.
26. Subsection (5) provides that the fourth objective is to conserve and enhance the countryside and cultural resources and promote public access to and engagement with them, and to sustain the Welsh language and promote and facilitate its use.
27. The fourth objective is about protecting, maintaining and improving cultural resources and the countryside, and promoting access and engagement with them. The countryside includes, for example, farmland and woodland, as well as the beauty of the natural environment. Cultural resources may include, for example, historic sites and buildings. This objective is also about sustaining the Welsh language, for example by supporting the people and communities that use the Welsh language, as well as promoting and facilitating the use of the Welsh language so as to raise awareness and opportunities for its use and proliferation.
28. Subsection (8) defines ‘cultural resources’ for the purposes of the fourth objective.

## **Y ddyletswydd**

### **Adran 2 - Dyletswydd Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r amcanion**

29. Mae adran 2(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru arfer swyddogaethau penodol yn y modd y maent yn ystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaeth honno'n briodol.
30. Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, bydd angen i Weinidogion Cymru ystyried pob un o'r pedwar amcan RhTG pan fyddant yn arfer swyddogaeth y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddi ac wedi hyn bydd angen arfer y swyddogaeth yn y modd y maent yn ystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion hynny (i'w hystyried gyda'i gilydd), i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaeth honno'n briodol. Bwriedir i'r amcanion RhTG ategu ei gilydd, ac, mewn rhai achosion, golyga hyn y caiff camau gweithredu eu cymryd sy'n cyfrannu at yr holl amcanion, er nid o reidrwydd yn gyfartal. Mewn achosion eraill, efallai na fydd hyn yn bosibl, er enghraifft, pan nad yw arfer swyddogaeth benodol yn cael unrhyw effaith mewn cysylltiad ag un neu ragor o'r amcanion.
31. Ym mhob achos, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru arfer swyddogaethau perthnasol yn y modd y maent yn ystyried sy'n cyfrannu orau at yr amcanion (i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaeth honno'n briodol). Golyga hyn pan fo mwy nag un opsiwn i Weinidogion Cymru, bydd angen iddynt ddewis yr opsiwn y maent yn ystyried sy'n fwyaf buddiol yn nhermau ei gyfraniad at gyflawni'r amcanion RhTG.
32. Mae swyddogaethau Gweinidogion Cymru y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddynt wedi eu nodi yn is-adrannau (2) a (3) ac yn ddarostyngedig i'r eithriadau yn adran 3.
33. Mae is-adran (2) yn darparu bod y swyddogaethau y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddynt yn:
  - swyddogaethau o dan y Ddeddf hon (adran 2(2)(a));
  - swyddogaethau o dan unrhyw ddeddfiad arall sy'n ei gwneud yn ofynnol neu'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth ar gyfer (i) amaethyddiaeth, neu weithgareddau eraill a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu (ii) gweithgareddau ategol (adran 2(2)(b));
  - swyddogaethau o dan unrhyw ddeddfiad arall sy'n ei gwneud yn ofynnol neu'n caniatáu i Weinidogion Cymru reoleiddio (i) amaethyddiaeth, neu weithgareddau eraill a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu (ii) gweithgareddau ategol (adran 2(2)(c)).
34. Mae is-adran (3) yn darparu nad yw'r ddyletswydd RhTG ond yn gymwys i'r swyddogaethau y cyfeirir atynt yn is-adrannau (2)(b) a (2)(c) i'r graddau bod y swyddogaethau hynny'n cael eu harfer i ddarparu cymorth ar gyfer neu i reoleiddio, (a) amaethyddiaeth, neu weithgareddau eraill a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu (b) gweithgareddau ategol (ac nid felly i'r graddau yr arferir y swyddogaethau hynny at ryw ddiben arall).

## **The duty**

### **Section 2 - Welsh Ministers' duty in relation to the objectives**

29. Section 2 (1) requires the Welsh Ministers to exercise certain of their functions in the way they consider best contributes to achieving the sustainable land management objectives, so far as consistent with the proper exercise of the function.
30. In order to comply with this duty, the Welsh Ministers will need to consider all four SLM objectives when they are exercising a function to which the duty applies and will then need to exercise the function in the way they consider best contributes to achieving those objectives (taken together), so far as consistent with the proper exercise of the function. The SLM objectives are intended to be complementary, and, in some cases, this will mean that action can be taken that contributes to all of the objectives, though not necessarily equally. In other cases, this may not be possible, for example, where the exercise of a particular function has no effect in respect of one or more of the objectives.
31. In each case, the Welsh Ministers will be required to exercise relevant functions in the way they consider best contributes to the objectives (so far as consistent with the proper exercise of the function). This means that where there is more than one option for the Welsh Ministers, they will be required to choose the option that they consider is most beneficial in terms of its contribution to achieving the SLM objectives.
32. The Welsh Ministers' functions to which the duty applies are specified in subsection (2) and (3) and are subject to the exceptions at section 3.
33. Subsection (2) provides that the functions to which the duty applies are:
  - functions under this Act (section 2(2)(a));
  - functions under any other enactment that require or allow the Welsh Ministers to provide support for (i) agriculture, or other activities carried out on land used for agriculture, or (ii) ancillary activities (section 2(2)(b));
  - functions under any other enactment that require or allow the Welsh Ministers to regulate (i) agriculture, or other activities carried out on land used for agriculture, or (ii) ancillary activities (section 2(2)(c)).
34. Subsection (3) provides that that the SLM duty applies to the functions referred to in subsections (2)(b) and (2)(c) only to the extent that those functions are exercised to provide support for, or to regulate, (a) agriculture, or other activities carried out on land used for agriculture, or (b) ancillary activities (and not, therefore, to the extent that those functions are exercised for some other purpose).

35. Diffinnir "amaethyddiaeth" yn adran 51; diffinnir "gweithgaredd ategol" yn adran 52; a diffinnir "swyddogaethau" yn adran 54.
36. Gall gweithgareddau eraill a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth gynnwys, er enghraifft, gweithgareddau neu ddigwyddiadau hamdden pan fo prif ddefnydd y tir yn parhau'n amaethyddol yn bennaf e.e. gweithgareddau neu ddigwyddiadau a gynhelir ar gyfer nifer penodol o ddyddiau yn unig yn ystod unrhyw flwyddyn benodol.

### **Adran 3 - Eithriadau rhag y ddyletswydd yn adran 2**

37. Mae adran 3 yn darparu nad yw'r ddyletswydd yn adran 2 yn gymwys i'r swyddogaethau a restrir ym mharagraffau (a) i (f).
38. Mae'r swyddogaethau a eithrir yn ymwneud yn bennaf â chynllun y taliad sylfaenol, gan gynnwys darpariaeth ganlyniadol a throsiannol sy'n ymwneud â chynllun y taliad sylfaenol a'r polisi amaethyddol cyffredin. Mae cynllun y taliad sylfaenol yn system cymorth incwm cynhwysol nad yw'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion RhTG.

### **Monitro ac adrodd**

39. Mae'r darpariaethau monitro ac adrodd yn gosod gofynion ar Weinidogion Cymru i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion RhTG. Mae'r darpariaethau yn manylu ar y gofyniad i osod dangosyddion a thargedau, yn ogystal â llunio adroddiad. Mae'r darpariaethau adrodd a monitro yn gwneud darpariaeth ar gyfer craffu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r Senedd. Maent hefyd yn gweithredu i ddarparu sylfaen dystiolaeth barhaus ar gyfer cefnogi tueddiadau polisi'r dyfodol a'r arferion gorau i'w canfod.

### **Adran 4 - Dangosyddion a thargedau rheoli tir yn gynaliadwy**

40. Mae adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi dangosyddion a thargedau er mwyn mesur cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion RhTG drwy arfer y swyddogaethau y mae'r ddyletswydd yn adran 2 yn gymwys iddynt.
41. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio datganiad sy'n nodi dangosyddion sydd i'w cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion RhTG drwy arfer y swyddogaethau y mae'r ddyletswydd yn adran 2 yn gymwys iddynt, a thargedau mewn perthynas â'r dangosyddion hynny.
42. Bydd dangosyddion yn darparu metrigau mewn modd y gellir mesur cyfraniad cam gweithredu tuag at yr amcanion RhTG. Bydd targedau yn nodi'r lefel o gynnydd a ddymunir yn erbyn y metrig y mae dangosydd penodol yn ei fanylu.
43. Er enghraifft, gellir mynd i'r afael â'r trydydd amcan ("cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu") drwy sawl dangosydd. Gallai un ohonynt fod yn ostyngiad yn lefelau llygryddion mewn afonydd sy'n llifo is-law gweithgareddau amaethyddol ac ategol. Wedi hyn, byddai targed penodol yn cael ei osod yn erbyn y dangosydd hwnnw a byddai'r dangosydd a'r targed yn cael eu hadrodd arnynt yn yr adroddiad RhTG a lunnir o dan adran 6.

35. Agriculture" is defined at section 51; "ancillary activity" is defined at section 52; and "functions" is defined at section 54.
36. Other activities carried out on land used for agriculture may include, for example, leisure activities or events where the main use of land remains primarily agricultural e.g. activities or events held for only a specific number of days in any given year.

### **Section 3 - Exceptions from the duty in section 2**

37. Section 3 provides that the duty in section 2 does not apply to the functions listed at paragraphs (a) to (f).
38. The functions excepted relate principally to the basic payment scheme, including consequential and transitional provision relating to the basic payment scheme and the common agricultural policy. The basic payment scheme is a universal income support system that does not contribute to the achievement of the SLM objectives.

### **Monitoring and reporting**

39. The monitoring and reporting provisions place requirements on Welsh Ministers to monitor and report on the progress made towards achieving the SLM objectives. The provisions detail the requirement to set indicators and targets, as well as to prepare a report. The reporting and monitoring provisions make provision for scrutiny and engagement with stakeholders and the Senedd. They also act to provide an on-going evidence base for the support of future policy trends and best practice to be identified.

### **Section 4 – Sustainable Land Management indicators and targets**

40. Section 4 requires the Welsh Ministers to prepare and publish indicators and targets to measure progress towards achieving the SLM objectives through the exercise of the functions to which the duty in section 2 applies.
41. Subsection (1) requires the Welsh Ministers to prepare a statement which sets out indicators that are to be applied to measure progress towards achieving the SLM objectives through the exercise of the functions to which the duty in section 2 applies, and targets in relation to those indicators.
42. Indicators will provide metrics by means of which the contribution of an action to the SLM objectives can be measured. Targets will set out the desired level of progress against the metric a specific indicator details.
43. For example, the third objective ("maintain and enhance the resilience of ecosystems and the benefits they provide.") may be addressed by several indicators, one of which could be a decrease in the levels of pollutants in rivers downstream of agricultural and ancillary activities. A specific target would then be set against that indicator and both the indicator and target would be reported against in the SLM report prepared under section 6.

44. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i'r datganiad gynnwys, yn isafswm, o leiaf un dangosydd neilltuol ar gyfer pob amcan RhTG, ac o leiaf un targed neilltuol sy'n ymwneud ag o leiaf un dangosydd neilltuol ar gyfer pob amcan RhTG. Mae hyn er mwyn sicrhau y cyfrifir cynnydd yn gywir ac yn effeithiol.
45. Mae is-adrannau (3) i (5) yn darparu y caiff y datganiad hefyd nodi dangosyddion pellach (y caiff pob un fod ar gyfer un amcan RhTG neu ar gyfer mwy nag un), a thargedau pellach (y caiff pob un ymwneud ag un dangosydd, pa un a yw'n cael ei nodi o dan is-adran (2) neu is-adran (3), neu â mwy nag un).
46. Mae is-adran (6) yn darparu y caiff dangosydd neu darged ymwneud â Chymru neu unrhyw ran o Gymru.
47. Mae is-adran (7) yn darparu y caniateir gosod targed drwy gyfeirio at unrhyw gyfnod y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.
48. Mae is-adran (8) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r datganiad a'i osod gerbron Senedd Cymru yn ddim hwyrach na 31 Rhagfyr 2025.
49. Mae is-adran (9) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru adolygu a diwygio'r datganiad ar unrhyw adeg ac mae is-adran (10) yn darparu bod is-adrannau (2) i (8) yn gymwys mewn perthynas â datganiad diwygiedig fel y maent yn gymwys i'r datganiad gwreiddiol.
50. Mae is-adran (11) yn darparu pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r datganiad, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gyhoeddi'r datganiad diwygiedig a'i osod gerbron Senedd Cymru.

#### **Adran 5 - Camau i'w cymryd wrth lunio neu ddiwygio dangosyddion a thargedau**

51. Mae adran 5 yn nodi'r camau y mae rhaid eu cymryd wrth lunio neu ddiwygio dangosyddion a thargedau.
52. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i adroddiadau, polisiâu a materion eraill penodol wrth lunio neu ddiwygio dangosyddion a thargedau.
53. Mae hyn yn ceisio sicrhau bod y gwaith monitro ac adrodd ar RhTG yn rhoi ystyriaeth briodol i nodau, polisiâu a gwaith adrodd ar gynaliadwyedd ehangach, i'r graddau y maent yn berthnasol.
54. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn briodol wrth lunio neu ddiwygio dangosyddion a thargedau.

#### **Adran 6 - Adroddiadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy**

55. Mae adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiadau RhTG ac yn manylu ar gynnwys ac amseru'r adroddiadau hynny.



44. Subsection (2) provides that the statement must contain, as a minimum, at least one distinct indicator for each SLM objective, and at least one distinct target relating to at least one distinct indicator for each SLM objective. This is to ensure accurate and effective accounting of progress.
45. Subsection (3) to (5) provides that the statement may also set out further indicators (each of which may be for one SLM objective or more than one), and further targets (each of which may relate to one indicator, whether set under subsection (2) or subsection (3), or to more than one).
46. Subsection (6) provides that an indicator or target may relate to Wales or any part of Wales.
47. Subsection (7) provides that a target may be set by reference to any period that the Welsh Ministers consider appropriate.
48. Subsection (8) provides that the statement must be published and laid before Senedd Cymru by the Welsh Ministers no later than 31 December 2025.
49. Subsection (9) provides that the Welsh Ministers may review and revise the statement at any time and subsection (10) provides that subsections (2) to (8) apply in relation to a revised statement as they apply to the original statement.
50. Subsection (11) provides that where the Welsh Ministers revise the statement, they must, as soon as reasonably practicable, publish the revised statement and lay it before Senedd Cymru.

#### **Section 5 – Steps to be taken in preparing or revising indicators and targets**

51. Section 5 sets out the steps that must be undertaken in preparing or revising indicators and targets.
52. Subsection (2) requires the Welsh Ministers to have regard to certain reports, policies and other matters when preparing or revising indicators and targets.
53. This seeks to ensure that the SLM monitoring and reporting takes appropriate account of wider sustainability goals, policies and reporting, to the extent that they are relevant.
54. Subsection (3) requires the Welsh Ministers to consult the Future Generations Commissioner for Wales and any other persons they consider appropriate when preparing or revising indicators and targets.

#### **Section 6 – Sustainable Land Management reports**

55. Section 6 requires the Welsh Ministers to prepare and publish SLM reports and details the content and timings of those reports.

56. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad mewn perthynas â phob cyfnod adrodd (fel y'i diffinnir gan is-adran (9)).
57. Mae is-adran (1)(a) yn darparu bod rhaid i'r adroddiad nodi asesiad Gweinidogion Cymru o'r cynnydd cronrus a wnaed, ers i adran 2 ddod i rym, tuag at gyflawni'r amcanion RhTG drwy arfer y swyddogaethau y mae'r ddyletswydd yn adran 2 yn gymwys iddynt.
58. Mae is-adran (1)(b) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad nodi asesiad Gweinidogion Cymru o'r cynnydd a wnaed, yn ystod y cyfnod adrodd, tuag at gyflawni'r amcanion hynny drwy arfer y swyddogaethau hynny.
59. Mae is-adran (2) yn datgan bod rhaid i'r adroddiad nodi, mewn perthynas â phob dangosydd yn y datganiad (neu'r datganiad diwygiedig) a gyhoeddir o dan adran 4, y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r dangosydd hwnnw yn ystod y cyfnod adrodd a sut y mae hynny wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy.
60. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i'r adroddiad nodi, mewn perthynas â phob targed yn y datganiad (neu'r datganiad diwygiedig), pa un a yw'r targed wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd ai peidio.
61. Mae is-adrannau (4) i (6) yn pennu'r ddarpariaeth y mae rhaid i'r adroddiad ei gwneud yn ddibynnol ar a yw targed wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd (is-adran (4)), nad yw targed wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd (is-adran (5)), neu nad yw Gweinidogion Cymru hyd yma wedi gallu penderfynu pa un a yw targed wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd ai peidio (is-adran (6)).
62. Mae is-adran (7) yn nodi materion eraill y caiff adroddiadau RhTG eu hasesu ac adrodd arnynt. Gall y rhain gynnwys y blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd allweddol mewn perthynas â chyflawni'r amcanion RhTG, a'r effaith y mae'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion hynny yn ei chael ar gyflawni nodau eraill e.e. nod Cymru sero net 2050.
63. Mae is-adran (8) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, yn ddim hwyrach na 12 mis ar ôl pob cyfnod adrodd, gyhoeddi'r adroddiad sy'n ymwneud â'r cyfnod adrodd a'i osod gerbron y Senedd.
64. Mae is-adran (9) yn diffinio'r "cyfnod adrodd" ac mae is-adran (10) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau i ddiwygio is-adran (9). Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, er enghraifft, hyd y cyfnod adrodd. Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (adran 50(6) a (7)).

56. Subsection (1) requires the Welsh Ministers to prepare a report in relation to each reporting period (as defined by subsection (9)).
57. Subsection (1)(a) provides that the report must set out the Welsh Ministers' assessment of the cumulative progress made, since section 2 came into force, towards achieving the SLM objectives through the exercise of the functions to which the duty in section 2 applies.
58. Subsection (1)(b) also requires the report to set out the Welsh Ministers' assessment of the progress made, during the reporting period, towards meeting those objectives through the exercise of those functions.
59. Subsection (2) states that the report must set out, in relation to each indicator in the statement (or revised statement) published under section 4, the progress made in relation to that indicator during the reporting period and how that has contributed to achieving the SLM objectives.
60. Subsection (3) provides that the report must also set out, in relation to each target in the statement (or revised statement), whether the target has been achieved during the reporting period.
61. Subsections (4) to (6) specify the provision the report must make depending on whether during the reporting a period a target has been achieved (subsection (4)), has not been achieved (subsection (5)), or the Welsh Ministers have not yet been able to determine whether a target has been achieved (subsection (6)).
62. Subsection (7) sets out other matters that SLM reports may assess and report on. These may include the key priorities, risks and opportunities in relation to achieving the SLM objectives, and the effect that the progress made towards achieving those objectives has on the achievement of other goals e.g. Wales's net zero 2050 goal.
63. Subsection (8) provides that the Welsh Ministers must, no later than 12 months after the end of each reporting period, publish the report that relates to the reporting period and lay it before the Senedd.
64. Subsection (9) defines the "reporting period" and subsection (10) confers powers on the Welsh Ministers by regulations to amend subsection (9). This regulation making power enables the Welsh Ministers to amend, for example, the length of the reporting period. This power to make regulations is subject to the affirmative resolution procedure (section 50(6) and (7)).

## **Adran 7 - Camau i'w cymryd wrth lunio adroddiadau**

65. Mae adran 7 yn nodi'r adroddiadau, y polisiau a'r materion eraill y mae rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt wrth lunio adroddiadau RhTG. Mae'n ceisio sicrhau bod adrodd ar RhTG yn cael ei gwblhau yng nghyd-destun adrodd a chamau gweithredu cynaliadwyedd ehangach a wneir yng Nghymru a bod data priodol yn cael ei ystyried wrth adrodd am gynnydd tuag at yr amcanion RhTG. Mae hefyd yn ceisio annog dull cydlynus wrth adrodd am gamau gweithredu amgylcheddol a chamau gweithredu eraill ledled Cymru.

## **RHAN 2 - CYMORTH AR GYFER AMAETHYDDIAETH ETC.**

### **Pennod 1 - Pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth**

66. Mae'r Bennod hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu cymorth ar gyfer, neu mewn cysylltiad ag, amaethyddiaeth yng Nghymru a gweithgareddau ategol sy'n cael eu cynnal yng Nghymru. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth, gan gynnwys drwy gyfrwng cynllun neu gynlluniau cymorth (ac wrth sefydlu cynllun neu gynlluniau o'r fath bydd angen i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r ddyletswydd RhTG).
67. Mae'r pŵer i ddarparu cymorth, yn ymarferol, yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru gefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy sydd â'r bwriad i gefnogi ymrwymadau amgylcheddol a hinsawdd Llywodraeth Cymru a chefnogi llesiant dinasyddion ymhellach wrth iddo ymwneud ag amaethyddiaeth yng Nghymru.

### **Adran 8 - Pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth**

68. Mae adran 8 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu cymorth ar gyfer, neu mewn cysylltiad ag, amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol sy'n cael eu cynnal yng Nghymru. Caiff cymorth fod yn gymorth ariannol, neu fel arall, er enghraifft gallai Gweinidogion Cymru ddewis arfer y pŵer i wneud taliad am gamau gweithredu neu i ddarparu cymorth a chyngor cyfarwyddol.
69. Mae adran 8(2) yn nodi rhestr (nad yw'n gynhwysfawr) o ddibenion y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu cymorth yng Nghymru ar eu cyfer, neu mewn cysylltiad â hwy. Nid yw Gweinidogion Cymru wedi eu cyfyngu gan y dibenion a restrir yn adran 8(2) a chaniateir iddynt ddarparu cymorth at ddibenion eraill, cyhyd â bod y dibenion eraill ar gyfer, neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth a/neu weithgareddau ategol yng Nghymru. Mae'r dibenion a restrir yn adran 8(2) yn rhoi cyd-destun yn nhermau'r nodau polisi y rhagwelir cefnogaeth ar eu cyfer. Mae'r dibenion yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion RhTG y manylir arnynt yn adran 1.
70. Mae'r diben yn is-adran (2)(a) yn cyfeirio at annog cynhyrchu bwyd mewn modd sy'n amgylcheddol gynaliadwy. Er enghraifft, gellid darparu cymorth ar gyfer tyfu cnydau mewn modd sy'n lleihau neu'n dileu'r angen am wrtaith artiffisial.

## **Section 7 – Steps to be taken in preparing reports**

65. Section 7 sets out the reports, policies and other matters that the Welsh Ministers must have regard to in preparing SLM reports. It seeks to ensure that SLM reporting is conducted in the context of wider reporting and sustainability actions undertaken in Wales and that appropriate data is considered in the reporting of progress towards the SLM objectives. It also seeks to encourage a cohesive approach to the reporting, of environmental and other actions across Wales.

## **PART 2 – SUPPORT FOR AGRICULTURE ETC**

### **Chapter 1 - Welsh Ministers’ power to provide support**

66. This Chapter confers power on the Welsh Ministers to provide support for or in connection with agriculture in Wales and ancillary activities that take place in Wales. This power enables the Welsh Ministers to provide support, including by means of a support scheme or schemes (and in establishing any such scheme or schemes the Welsh Ministers will need to comply with the SLM duty).
67. The power to provide support, in practice, provides Welsh Ministers with the mechanism to support farmers in producing food and other goods in a sustainable way that is intended to support the Welsh Government’s environmental and climate commitments and to further support the well-being of citizens as it relates to agriculture in Wales.

### **Section 8 - Welsh Ministers’ power to provide support**

68. Section 8 provides the Welsh Ministers with the power to provide support for, or in connection with, agriculture and ancillary activities that take place in Wales. Support may be financial, or non-financial, for example the Welsh Ministers might choose to exercise the power to make payment for actions or to provide instructional assistance and advice.
69. Section 8(2) sets out a list of (non-exhaustive) purposes for or in connection with which the Welsh Ministers may provide support in Wales. The Welsh Ministers are not constrained by the listed purposes at section 8(2) and may provide support for other purposes, so long as the other purposes are for or in connection with agriculture and/or ancillary activities in Wales. The purposes listed at section 8(2) provide context in terms of the policy aims for which support is envisaged. The purposes support the achievement of the SLM objectives detailed in section 1.
70. The purpose at subsection (2)(a) refers to encouraging the production of food in an environmentally sustainable manner. For example, support might be provided for growing crops in a way that minimises or eradicates the need for artificial fertiliser.

71. Mae'r diben yn is-adran (2)(b) yn cyfeirio at helpu cymunedau gwledig i ffynnu, ac i gryfhau'r cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau. Er enghraifft, gallai'r cymorth a roddir at y diben hwn fod yn anelu at hybu gwytnwch economaidd busnesau amaethyddol drwy ffermydd yn arallgyfeirio a chryfhau busnesau fferm er mwyn cefnogi a chyfrannu tuag at gymunedau (lleol) gwledig ffyniannus, fel cefnogi ac annog cynnydd mewn bioamrywiaeth neu wytnwch ecosystemau ar ffermydd, drwy brosiectau cydweithredol fel perllannau cymunedol, neu gynorthwyo busnesau fferm i arallgyfeirio i werthu i ddefnyddwyr yn uniongyrchol, drwy focsys cig a / neu focsys llysiau.
72. Mae'r diben yn is-adran (2)(c) yn cyfeirio at wella gwytnwch busnesau amaethyddol. Gallai'r cymorth a roddir at y diben hwn fod yn anelu at geisio denu newydd-ddyfodiaid i ffermio a chefnogi cynllunio ar gyfer olyniaeth.
73. Mae'r diben yn is-adran (2)(d) yn cyfeirio at gynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd. Gallai'r cymorth a roddir at y diben hwn fod yn anelu at hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar draws pob lefel gymhwysedd ac annog dysgwyr newydd ar draws y sector amaethyddol.
74. Mae'r diben a restrir yn is-adran (2)(e) yn cyfeirio at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Er enghraifft, gallai cymorth geisio annog ffermydd i leihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr, gan gynnwys drwy wneud defnydd effeithlon o danwydd ac ynni, lleihau mewnbynnau allanol a chael da byw a chnydau cynhyrchiol.
75. Mae is-adran (2)(f) yn nodi'r diben o atafaelu a storio carbon i'r graddau gorau posibl. Gallai'r cymorth a roddir at y diben hwn fod yn anelu at greu stociau carbon newydd, a gwella rhai sy'n bodoli eisoes ar ffermydd, er enghraifft drwy gynyddu cyfanswm y carbon sydd mewn pridd, adfer mawndiroedd, plannu coed a/neu wrychoedd a rheoli coetir ffermydd.
76. Y diben y cyfeirir ato yn is-adran (2)(g) yw cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau. Gallai hyn olygu cefnogi ffermwr i fabwysiadu gwahanol dechnegau ffermio sy'n osgoi effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, rhywogaethau a chynefinoedd, a sicrhau manteision iddynt.
77. Y diben a restrir yn is-adran (2)(h) yw cadw a gwella tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol. Gallai cefnogaeth a ddarperir ar gyfer, neu mewn cysylltiad â'r diben hwn, er enghraifft, fod i gefnogi ffermwyr i gynnal adeiladau hanesyddol a all fod ganddynt ar eu tir.
78. Y diben a restrir yn is-adran (2)(i) yw gwella ansawdd yr aer. Bwriedir i'r cymorth a ddarperir ar gyfer, neu mewn cysylltiad â'r diben hwn, gael ei anelu at gamau gweithredu sy'n arwain at aer sydd â llygredd cyfyngedig (nwyon niweidiol a gronynnau a wneir gan bobl) gan gynnwys deunydd gronynnol mân (PM2.5), amonia (NH3) a chyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan (NMVOC).

71. The purpose at subsection (2)(b) refers to helping rural communities to thrive, and to strengthening links between agricultural businesses and their communities. For example, support given for this purpose might be aimed at promoting the economic resilience of agricultural businesses through farm diversification and strengthening farm businesses to support and contribute towards thriving rural (local) communities, such as supporting and encouraging an increase in biodiversity or eco system resilience on farms, through collaborative projects such as community orchards, or supporting farm businesses to diversify into direct-to-consumer sales, via meat and / or vegetable boxes.
72. The purpose at subsection (2)(c) refers to improving the resilience of agricultural businesses. Support given for this purposes might be aimed at seeking to attract new entrants to farming and to support succession planning.
73. The purpose at subsection (2)(d) refers to sustaining the Welsh language and promoting and facilitating its use. Support given for this purposes could be aimed at facilitating the use of the Welsh language across all levels of competency and the encouragement of new learners across the agricultural sector.
74. The purpose listed at subsection (2)(e) refers to reducing of emissions of greenhouse gases. For example, support might seek to encourage farms to reduce their greenhouse gas emissions, including through making efficient use of fuel and energy, minimising external inputs and having productive livestock and crops.
75. Subsection (2)(f) sets out the purpose of maximising carbon sequestration and storage. Support given for this purpose could be aimed at creating new and enhancing existing carbon stocks on farms, for example through increasing soil carbon content, restoring peatland, tree and/or hedge planting and farm woodland management.
76. The purpose referred to at subsection (2)(g) is that of maintaining and enhancing the resilience of ecosystems. This could mean supporting a farmer in adopting different farming techniques which avoid negative impacts on, and delivering benefits for, biodiversity, species, and habitats.
77. The purpose listed at subsection (2)(h) is conserving and enhancing landscapes and the historic environment. Support provided for or in connection with this purpose could, for example, look to support farmers in maintaining historical buildings they may have on their land.
78. The purpose at subsection (2)(i) is improving air quality. Support provided for or in connection with this purpose is intended to be aimed at actions which result in air which has limited pollution (human made particles and harmful gases) including fine particulate matter (PM2.5), ammonia (NH3) and non-methane volatile organic compounds (NMVOC).

79. Mae is-adran (2)(j) yn darparu ar gyfer y diben o wella ansawdd dŵr. Y nod polisi sydd wrth wraidd y diben hwn yw sicrhau bod amgylchedd y dŵr (gan gynnwys dŵr mewndirol) yn cael ei reoli'n gynaliadwy er mwyn cefnogi cymunedau iach, busnesau sy'n ffynnu a chynnydd mewn bioamrywiaeth.
80. Y diben a restrir yn is-adran (2)(k) yw cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol ac ymgysylltiad y cyhoedd â hwy. Gallai'r camau gweithredu a gymerir mewn cysylltiad â'r diben hwn gynnwys cefnogi ffermwyr i wella llwybrau troed cyhoeddus i'w gwneud yn fwy hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.
81. Mae is-adran (2)(l) yn rhestru'r diben ynghylch lliniaru risgiau o lifogydd a sychder. Gellid darparu cefnogaeth ar gyfer, neu mewn cysylltiad â'r diben hwn, er enghraifft, i alluogi ffermydd i baratoi at gyfnodau o lawiad isel neu uchel, lleihau'r risgiau i'r fferm a chymunedau o lifogydd a sychder gan gynnwys drwy reoli llifogydd ar sail natur.
82. Y diben yn is-adran (2)(m) yw cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid. Gallai'r gefnogaeth a ddarperir ar gyfer, neu mewn cysylltiad â'r diben hwn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr, neu eu hannog, i lunio cynllun iechyd anifeiliaid a'i weithredu a/neu gymryd camau gweithredu sy'n gwella lles anifeiliaid megis darparu cysgod neu ofod addas.
83. Mae is-adran (2)(n) yn darparu ar gyfer y diben o sicrhau effeithlonrwydd adnoddau i'r graddau gorau posibl. Gallai'r gefnogaeth a ddarperir ar gyfer, neu mewn cysylltiad â'r diben, er enghraifft, gynorthwyo ffermydd i ddilyn dull economi gylchol drwy gadw adnoddau a deunyddiau mewn defnydd cyhyd ag sy'n bosibl a lleihau gwastraff.
84. Y dibenion y cyfeirir atynt yn is-adran (2)(o) yw annog busnesau amaethyddol i reoli ynni yn effeithiol (gan gynnwys drwy fabwysiadu arferion effeithlonrwydd ynni ac arbed ynni, a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar eu tir). Caniateir i gymorth at y diben hwn neu mewn cysylltiad ag ef gael ei ddarparu, er enghraifft, i annog busnesau amaethyddol i fabwysiadu cynlluniau rheoli ynni da a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle, gyda'r nod y bydd hynny'n cynorthwyo'r busnesau amaethyddol hynny (dros gyfnod o amser) i leihau eu costau ynni, drwy amryw o fesurau.
85. Mae adran 8(3) yn darparu y caniateir i gymorth a ddarperir o dan y pŵer i ddarparu cymorth gael ei ddarparu o dan gynllun, neu fel arall. Er enghraifft, drwy drosglwyddo gwybodaeth a gwasanaeth arloesi.
86. Mae is-adran (4) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o ddibenion drwy reoliadau (drwy ychwanegu diben newydd, dileu diben, neu newid disgrifiad o ddiben). Gallai hyn, er enghraifft, adlewyrchu newid i ymrwymadau Llywodraeth Cymru a'r amcanion RhTG. Fel arall, gellid ystyried nad yw un neu ragor o'r dibenion yn cael eu hystyried yn angenrheidiol mwyach ac felly bod angen eu disodli i adlewyrchu sefyllfa wedi'i diweddarau.



79. Subsection (2)(j) provides for the purpose of improving water quality. The policy aim behind this purpose is to ensure the water environment (including inland water) is sustainably managed to support healthy communities, flourishing businesses and increased biodiversity.
80. The purpose listed at subsection (2)(k) is maintaining and enhancing public access to and engagement with the countryside and the historic environment. Action that could be taken in connection with this purpose could include supporting farmers to upgrade public footpaths to make them more accessible for wheelchair users.
81. Subsection (2)(l) lists the purpose of mitigating flood and drought risks. Support for or in connection with this purpose may be provided, for example, to enable farms to prepare for periods of low or high rainfall, reducing the risks to the farm and communities from flooding and drought including through nature-based flood management.
82. The purpose at subsection (2)(m) is achieving and promoting high standards of animal health and welfare. Support provided for or in connection with this purpose could require/encourage farmers to draw up and action an animal health plan and/or to take actions which improve the well-being of animals such as providing shade or suitable space.
83. Subsection (2)(n) provides for the purpose of maximising resource efficiency. Support provided for or in connection with the purpose, for example, could assist farms in taking a circular economy approach by keeping resources and materials in use for as long as possible and minimising waste.
84. The purposes referred to in subsection (2)(o) is that of encouraging agricultural businesses to manage energy effectively (including by adopting energy efficiency and energy saving practices, and generating renewable energy on their land). Support for or in connection with this purpose may be provided, for example, to encourage agricultural businesses to adopt good energy management plans and generate renewable energy on-site, with a view to this supporting those agricultural businesses to (over time) lower their energy costs, through a range of measures.
85. Section 8(3) provides that support provided under the power to provide support may be provided by way of a scheme, or by other means. For example, through a knowledge transfer and innovation service.
86. Subsection (4) provides the Welsh Ministers with the power to amend the list of purposes by regulations (by adding a new purpose, removing a purpose, or altering the description of a purpose). This might for instance reflect a change in Welsh Government commitments and the SLM objectives. Alternatively, it may be considered that one or more of the purposes are no longer considered necessary and therefore need to be replaced to reflect an updated position.

## **Adran 9 - Darpariaeth bellach ynghylch cymorth o dan adran 8**

87. Mae adran 9 yn darparu y caniateir i gymorth a ddarperir o dan y pŵer o gymorth yn adran 8 ei roi yn ariannol neu fel arall. Yn ymarferol, mae'r modd y caiff cymorth ei roi yn debygol o ddibynnu ar unrhyw nifer o ffactorau, er enghraifft y canlyniad a fwriedir a math/nifer y derbynwyr. Mae is-adran (2) yn pennu y caniateir darparu cymorth ariannol drwy grantiau, benthyciadau neu warantau, ond caniateir darparu cymorth ar unrhyw ffurf arall.
88. Mae is-adran (3) yn darparu y gall fod angen bodloni meini prawf o ran cymhwysedd er mwyn i berson fod yn gymwys am gymorth. Penderfynir ar y meini prawf o ran cymhwysedd gan bob cynllun cymorth unigol a sefydlir yn unol ag adran 8.
89. Mae is-adran (4) yn darparu enghreifftiau o feini prawf o ran cymhwysedd pan fo cymorth yn cael ei ddarparu mewn cysylltiad â'r defnydd o dir. Gall gofynion, ymysg pethau eraill, ymwneud â nodweddion y tir, er enghraifft, nodweddion ecolegol y tir. Gall gofyniad hefyd ymwneud â'r person sy'n cael cymorth – er enghraifft, rhywun sy'n newydd i ffermio, neu rywun sydd am arallgyfeirio o arferion ffermio presennol ar y tir.
90. Mae is-adran (5) yn caniatáu i Weinidogion Cymru osod amodau ar unrhyw gymorth a ddarperir: yn ymarferol, gallai enghreifftiau fod yn brawf o weithredu, amserlenni a hyd contractau.
91. Mae is-adran (6) yn datgan y caniateir i'r amodau hyn gynnwys darpariaeth i gymorth gael ei ad-dalu. Caniateir codi llog ar arian y mae'n ofynnol ei ad-dalu.
92. Mae is-adran (7) yn darparu y caniateir darparu cymorth o dan adran 8 i berson neu sefydliad sydd wedi sefydlu a/neu'n gweithredu "cynllun trydydd parti". Rhaid i'r cymorth gael ei roi mewn cysylltiad â sefydlu neu weithredu'r "cynllun trydydd parti" hwnnw. Golyga hyn y caniateir darparu cymorth o dan adran 8 mewn cysylltiad â gwariant a ysgwyddwyd gan drydydd parti wrth sefydlu a gweithredu cynllun, ac ar gyfer cyllid a ddarperir drwy'r cynllun hwnnw. Byddai hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyllido, er enghraifft, partneriaethau lleol neu sefydliadau eraill i gyflawni prosiectau cydweithredol sy'n seiliedig ar y tirwedd sy'n gwella'r amgylchedd hanesyddol a'r tirwedd dynodedig ar draws nifer o ffermydd.
93. Mae is-adran (8) yn darparu diffiniad o "cynllun trydydd parti" at ddibenion is-adran (7): mae'n gynllun sy'n darparu cymorth ar gyfer neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth neu weithgareddau ategol, ac sy'n cael ei wneud gan drydydd parti (nid Gweinidogion Cymru).
94. Mae is-adrannau (9) a (10) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddirprwyo swyddogaethau mewn perthynas â rhoi cymorth gan gynnwys rhoi canllawiau neu arfer disgrisiwn.

## **Section 9 - Further provision about support under section 8**

87. Section 9 provides that support provided under the power of support in section 8 may be given financially or otherwise. In practice, the way in which support is given is likely to depend on any number of factors, for example intended outcome and type/number of recipients. Subsection (2) specifies that financial support may be given by way of grants, loans or guarantees, but support may be given in any other form.
88. Subsection (3) provides that eligibility criteria may need to be met in order for a person to be eligible for support. The eligibility criteria will be determined by each individual support scheme established pursuant to section 8.
89. Subsection (4) provides examples of eligibility criteria where support is provided in connection with the use of land. Requirements may, among other things, relate to the characteristics of the land, for example, the ecological features of the land. A requirement may also relate to the person receiving support – for example, someone who is new to farming or someone who wants to diversify from current farming practices on the land.
90. Subsection (5) allows the Welsh Ministers to attach conditions to any support provided: in practice, examples might be proof of action, time frames and contract length.
91. Subsection (6) states that these conditions may include provision for support to be repaid. Interest may be charged on monies that are required to be repaid.
92. Subsection (7) provides that support may be given under section 8 to a person or organisation who has established and/or operates a “third party scheme”. The support must be given in connection with the establishment or operation of that “third party scheme”. This means that support may be provided under section 8 in connection with expenditure incurred by a third party in establishing and operating a scheme, and for funding provided through that scheme. This would enable the Welsh Ministers to fund, for example, local partnerships or other organisations to deliver landscape-based collaborative projects that enhance the historic environment and designated landscape across multiple farms.
93. Subsection (8) provides a definition of "third party scheme" for the purposes of subsection (7): it is a scheme that provides support for or in connection with agriculture or ancillary activities, and which is made by a third party (not the Welsh Ministers).
94. Subsections (9) and (10) enable the Welsh Ministers to delegate functions in relation to giving support including giving guidance or exercising a discretion.

**Adran 10 - Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi gwybodaeth am gymorth**

95. Mae adran 10 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch cyhoeddi gwybodaeth benodedig (fel a bennir yn y rheoliadau) am gymorth sy'n cael ei ddarparu, neu sydd wedi ei ddarparu o dan adran 8. Caiff yr wybodaeth y caniateir ei phennu yn y rheoliadau gynnwys gwybodaeth am dderbynnydd unrhyw gymorth a ddarperir, swm unrhyw gymorth a ddarperir, a dibenion unrhyw gymorth a ddarperir.
96. Mae adran 10(2) yn caniatáu i'r rheoliadau osod gofynion. Felly, er enghraifft, gallai'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson - gan gynnwys Gweinidogion Cymru - ddarparu'r wybodaeth a bennir.
97. Yn nhermau polisi, bwriad cyhoeddi gwybodaeth am y ddarpariaeth o gymorth yw hyrwyddo tryloywder a chaniatáu i'r hyn sydd wedi ei gyflawni neu sy'n ofynnol o'r cymorth a roddir gael ei ddangos yn glir.

**Adran 11 - Cynlluniau Cymorth Amlflwydd**

98. Mae adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio 'cynllun cymorth amlflwydd' (CCA) ynghylch y defnydd y disgwylir ei wneud o'r pwerau o dan adran 8 yn ystod y cyfnod y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef.
99. Mae is-adran (2) yn rhoi'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn yr CCA, gan gynnwys disgrifiad o gynlluniau cymorth gweithredol, neu gynlluniau cymorth y disgwylir iddynt ddod yn weithredol, yn ystod y cyfnod y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef.
100. Mae is-adran (3) yn darparu y bydd y cyfnod y mae'r CCA cyntaf yn ymwneud ag ef yn bum mlynedd, sy'n dechrau â 1 Ionawr 2025. Mae is-adran (4) yn nodi bod rhaid i CCAs dilynol ymwneud â chyfnodau nad ydynt yn fyrrach na phum mlynedd.
101. Mae is-adran (5) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod CCA yn ei le ar bob adeg.
102. Mae is-adran (6) yn darparu bod rhaid gosod y CCA gerbron y Senedd cyn dyddiad cychwyn cyfnod y cynllun: yn achos y CCA cyntaf, cyn gynted ag y bo'n ymarferol cyn cyfnod y cynllun, ac ar gyfer cynlluniau dilynol, o leiaf 12 mis cyn i gyfnod y cynllun ddechrau.
103. Mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddiwygio CCA os nad yw'r wybodaeth ynddo yn gywir mwyach cyn diwedd y cyfnod y mae'n ymwneud ag ef (er enghraifft, pan na fo cynllun cymorth yn weithredol mwyach neu pan na chaiff swyddogaethau o fewn cynllun eu cefnogi mwyach).
104. Mae is-adran (8) yn ei gwneud yn ofynnol i'r CCA diwygiedig i gael ei gyhoeddi a'i osod gerbron y Senedd.

## **Section 10 - Power to make provision about publication of information about support**

95. Section 10 confers power on the Welsh Ministers to make regulations about the publication of certain information (as specified in the regulations) about support which has been, or is being, supplied under section 8. The information that may be specified in the regulations may include information about the recipient of any support provided, the amount of support provided, and the purposes of any support provided.
96. Section 10(2) permits the regulations to impose requirements. So, for instance the regulations could require any person – including the Welsh Ministers – to provide the information stipulated.
97. In policy terms, the publication of information about the provision of support is intended to promote transparency and allow a clear indication of what has been achieved or is required from the support given.

## **Section 11 – Multi-annual Support Plans**

98. Section 11 requires the Welsh Ministers to prepare a ‘Multi-annual support plan’ (MASP) about the expected use, during the period to which the plan relates, of the powers under section 8.
99. Subsection (2) sets out the information that must be contained within the MASP, including a description of support schemes which are either both operational, or expected to become operational, during the period to which the plan relates.
100. Subsection (3) provides that the period to which the first MASP is to relate is to be five years, beginning with 1 January 2025. Subsection (4) states that subsequent MASPs must relate to periods not shorter than five years.
101. Subsection (5) places a duty on Welsh Ministers to ensure that there is always a MASP in force.
102. Subsection (6) provides that the MASP must be laid before the Senedd in advance of the date in which the plan period commences: in the case of the first MASP as soon as practicable before the plan period, and for subsequent plans, at least 12 months in advance of the beginning of the plan period.
103. Subsections (7) requires the Welsh Ministers to amend a MASP if the information in it ceases to be accurate before the end of the period to which it relates (for instance, where a support scheme is no longer operational or functions within a scheme are no longer supported).
104. Subsection (8) requires the revised MASP to be published and laid before the Senedd.

**Adran 12 - Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch gwirio cymhwysedd ar gyfer cymorth, etc**

105. Mae adran 12 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau, a chaniateir iddynt gael eu harfer er mwyn gwneud darpariaeth ynghylch gwirio a yw'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth o dan adran 8 wedi eu bodloni a'r canlyniadau, pan nad ydynt wedi eu bodloni, ynghylch gorfodi cydymffurfedd ag amodau, ynghylch monitro i ba raddau y mae dibenion y cymorth wedi eu cyflawni, ac ynghylch ymchwilio i droseddau a amheuir. Bwriedir i'r pwerau hyn sicrhau bod cymorth amaethyddol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei weinyddu yn gywir a bod y rhai sy'n cael cymorth o dan y pŵer i ddarparu cymorth yn ddarostyngedig i graffu ac atebolrwydd priodol.
106. Mae is-adran (2) yn darparu rhestr nad yw'n gynhwysfawr o'r mathau o ddarpariaeth y caniateir eu cynnwys mewn unrhyw reoliadau a wneir o dan is-adran (1). Er yr ystyrir mai dyma rai o'r prif faterion y gallai fod angen i'r rheoliadau fynd i'r afael â hwy, caniateir i reoliadau gael eu gwneud ar gyfer unrhyw un o'r dibenion a nodir yn is-adran (1) ac ni chyfyngir ar gynnwys unrhyw reoliadau a wneir yn y dyfodol i'r meysydd hynny a restrir yn is-adran (2).
107. Mae is-adran (2)(f) yn caniatáu i reoliadau o dan adran 11 wneud darpariaeth ynghylch adennill cymorth ariannol (er enghraifft, gallai'r rheoliadau ganiatáu i'r cymorth gael ei adennill, gyda llog, pan fo person wedi torri amod).
108. Mae is-adran (2)(h) yn caniatáu i reoliadau o dan adran 11 wneud darpariaeth ynghylch y camau i'w cymryd gan berson y darperir neu y darparwyd cymorth iddo, er mwyn unioni amodau a dorrwyd.
109. Mae is-adran (2)(i) a (j) yn caniatáu i reoliadau o dan adran 11 wneud darpariaeth ynghylch cosbau ariannol, gan gynnwys sicrwydd ar gyfer taliad.
110. Mae is-adran (2)(k) yn caniatáu i'r rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch gwahardd person rhag cael cymorth am gyfnod a bennir, neu hyd nes i amodau a bennir gael eu bodloni. Er enghraifft, gallai'r rheoliadau ganiatáu i'r taliad cymorth gael ei atal dros dro hyd nes bod person wedi unioni toriad.
111. Mae is-adran (2)(l) yn caniatáu i'r rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer apelau.
112. Mae is-adran (2)(m) yn caniatáu i'r rheoliadau roi swyddogaethau i berson: gallai hyn er enghraifft gael ei ddefnyddio i wneud darpariaeth sy'n rhoi swyddogaethau i weinyddwr cynllun.
113. Gall hyn gynnwys ei gwneud yn ofynnol i gymryd camau penodol, er mwyn unioni toriad o'r fath. Caiff rheoliadau hefyd wneud darpariaeth i adennill arian a dalwyd (â llog neu heb log), gwahardd rhywun o gynllun (am gyfnod a bennir neu hyd nes i amodau penodol gael eu bodloni) a gosod cosbau ariannol. Mae hefyd y pŵer i wneud rheoliadau sy'n rhoi swyddogaethau i eraill ac i ddarparu gweithdrefn i apelio yn erbyn penderfyniadau.

**Section 12 - Power to make provision about checking eligibility for support, etc**

105. Section 12 provides the Welsh Ministers with regulation making powers that may be exercised to make provision about checking whether eligibility criteria for support under section 8 are met and the consequences where they are not, about enforcing compliance with conditions, about monitoring the extent to which the purposes of support have been achieved, and about the investigation of suspected offences. These powers are intended to ensure that agricultural support financed by the Welsh Government is administered correctly and that recipients of support under the power to provide support are subject to appropriate scrutiny and accountability.
106. Subsection (2) provides a non-exhaustive list of types of provision that may be included in any regulations made under subsection (1). Whilst these are considered to be some of the main matters that regulations may need to address, regulations may be made for any of the purposes set out in subsection (1) and the content of any future regulations is not limited to those areas listed in subsection (2).
107. Subsection (2)(f) permits regulations under section 11 to make provision about the recovery of financial support (for instance, the regulations might permit support to be recovered, with interest, where a person has breached a condition).
108. Subsection (2)(h) permits regulations under section 11 to make provision about steps to be taken by a person to whom support is being, or has been, provided, in order to rectify a breach of conditions.
109. Subsection (2)(i) and (j) permits regulations under section 11 to make provision about monetary penalties, including, security for payment.
110. Subsection (2)(k) permits the regulations to make provision about prohibiting a person from receiving support for a specified period, or until specified conditions are satisfied. For instance, the regulations might permit the payment of support to be suspended until a person has rectified a breach.
111. Subsection (2)(l) permits the regulations to make provision for appeals.
112. Subsection (2)(m) permits the regulations to confer functions on a person: this might for instance be used to make provision conferring functions upon a scheme administrator.
113. This may include the requirement of certain action to be taken, to rectify such a breach. Regulations may also make provision for the recovery of monies that have been paid (with or without interest), the suspension of someone from a scheme (for a specified period or until certain conditions have been satisfied) and the imposition of monetary penalties. There is also the power to make regulations conferring functions to others and to provide a procedure for appealing against decisions.

114. Mae is-adran (3) yn darparu na chaiff rheoliadau a wneir o dan adran 11 awdurdodi mynediad i annedd breifat (er enghraifft, i wirio cydymffurfedd) oni bai bod gwarant wedi ei roi gan weithdrefn farnwrol. (Mae adran 51 yn diffinio "annedd breifat".)
115. Mae is-adran (4) yn darparu, os yw'r rheoliadau yn gwneud darpariaethau ar gyfer cosbau, y caniateir iddynt roi llog ar gosbau sydd i'w talu. Caniateir i'r llog fod yn daladwy o ddiwrnod a ddarperir yn y rheoliadau eu hunain, neu ar ddiwrnod a bennir (er enghraifft gan weinyddwr cynllun) o dan y rheoliadau.

### **Adran 13 - Adroddiad blynyddol ynghylch cymorth a ddarparwyd o dan adran 8**

116. Mae adran 13 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio adroddiad blynyddol, mewn perthynas â phob cyfnod adrodd, ynghylch y cymorth ariannol a chymorth arall a ddarparwyd yn ystod y cyfnod. Mae is-adran (5) yn darparu mai'r cyfnod adrodd cyntaf yw'r cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae adran 8 yn dod i rym ac sy'n dod i ben â 31 Mawrth 2025; bydd cyfnodau adrodd dilynol yn cyd-fynd â blynyddoedd ariannol (1 Ebrill hyd at 31 Mawrth).
117. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth benodol gael ei chynnwys yn yr adroddiad. Dyma gyfanswm unrhyw gymorth ariannol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod adrodd, manylion yr holl gymorth ariannol a chymorth arall a ddarparwyd o dan bob cynllun cymorth a sefydlir o dan adran 8, a disgrifiad o unrhyw gymorth ac eithrio cymorth ariannol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod adrodd, ond nid o dan gynllun.
118. Gall Gweinidogion Cymru, fel y nodir yn is-adran (3), gynnwys unrhyw wybodaeth arall yn yr adroddiad y maent yn ystyried ei bod yn briodol. Bydd yr hyn a ystyrir yn briodol yn ddibynnol ar amgylchiadau penodol, ond enghraifft bosibl fyddai gwybodaeth am unrhyw gymorth ariannol sy'n cael ei adennill a'r rhesymau am y cam gweithredu hwn.
119. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad blynyddol a'i osod gerbron Senedd Cymru yn ddim hwyrach na 12 mis ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd.

### **Adran 14 - Adroddiad Effaith**

120. Mae adran 14 yn nodi dyletswydd Gweinidogion Cymru i lunio (ar gyfer pob cyfnod adrodd) Adroddiad Effaith yn ymwneud â chymorth a ddarparwyd o dan adran 8. Y bwriad yw sicrhau bod effaith ac effeithiolrwydd yr holl gefnogaeth a ddarparwyd yn ystod y cyfnod hwnnw yn unol ag adran 8 yn cael eu gwerthuso bob pum mlynedd, gan gynnwys asesiad ar sut, ac i ba raddau y gwnaeth y cymorth gyflawni'r dibenion, ac i ba raddau y gwnaeth gyfrannu at gyflawni'r amcanion RhTG.
121. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Adroddiad Effaith nodi'r holl ddibenion y darparwyd cymorth ar eu cyfer o dan adran 8, yn ystod y cyfnod adrodd.



114. Subsection (3) provides that regulations made under section 11 may not authorise entry to a private dwelling (for instance, to check compliance) unless a warrant has been issued by a judicial procedure. (Section 51 defines a "private dwelling".)
115. Subsection (4) provides that, if the regulations make provision for penalties, they may provide for interest on penalties to be payable. The interest may be payable from a day provided for in the regulations themselves, or a day determined (for instance by a scheme administrator) under the regulations.

### **Section 13 - Annual report about support provided under section 8**

116. Section 13 places a duty on the Welsh Ministers to prepare an annual report, in relation to each reporting period, about the financial and non-financial support provided during the period. Subsection (5) provides that the first reporting period runs from the date on which section 8 comes into force until 31 March 2025; while subsequent reporting periods will be aligned with financial years (1 April to 31 March).
117. Subsection (2) requires certain information to be included within the report. This is the total amount of any financial support provided during the reporting period, details of all financial and non-financial support provided under each support scheme established under section 8, and a description of any support other than financial support provided during the reporting period, but not under a scheme.
118. The Welsh Ministers are able, as set out in subsection (3), to include in the report any other information they consider appropriate. What is considered to be appropriate will depend on the particular circumstances, but an example might be information on any financial support which is being recouped and the reasons for this action.
119. Subsection (4) requires the Welsh Ministers to publish and lay the annual report before Senedd Cymru no later than 12 months after the end of each reporting period.

### **Section 14 - Impact Report**

120. Section 14 sets out the Welsh Ministers' duty to produce (for each reporting period) an Impact Report in respect of support provided under section 8. The objective behind this is to ensure that every five years there is an evaluation of the impact and effectiveness all support provided during that period pursuant to section 8, including an assessment of how and the extent to which the support has achieved its purposes, and contributed to achieving the SLM objectives.
121. Subsection (2) requires the Impact Report to set out all the purposes for which support has been given under section 8, during the reporting period.

122. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i'r Adroddiad Effaith gynnwys asesiad o effaith ac effeithiolrwydd y cymorth a roddwyd yn ystod y cyfnod adrodd, gan gynnwys asesiad o'r canlynol: (a) ym mha fodd, ac i ba raddau, y gwnaeth y cymorth gyflawni'r dibenion a fwriadwyd; a (b) ym mha fodd, ac i ba raddau, y gwnaeth darparu'r cymorth gyfrannu at gyflawni'r amcanion RhTG. Nod nodi'r dibenion yn y modd sy'n ofynnol o dan is-adran (2) yw amlygu'r cysylltiad rhwng cymorth a ddarperir a'r canlyniad a fwriadwyd gan gymorth o'r fath a'i nod yw sicrhau bod modd mesur effaith ac effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir yn glir yn erbyn y dibenion.
123. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru asesu ac adrodd ar unrhyw faterion eraill y maent yn ystyried eu bod yn berthnasol ar gyfer asesu effaith ac effeithiolrwydd cymorth a ddarparwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gwybodaeth ynghylch a yw unrhyw gamau gweithredu a gymerir o dan gynllun cymorth yn addas o hyd; a ydynt wedi eu cyflawni; ar y gweill o hyd; neu heb eu gweithredu, ynghyd ag unrhyw gamau unioni er mwyn gwella'r mater. Gallai'r wybodaeth hon hyd yn oed ddangos pa un a yw'r gwaith o weinyddu unrhyw gynllun yn addas i'r diben ai peidio.
124. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Asesiad Effaith a'i osod gerbron Senedd Cymru yn ddim hwyrach na 12 mis ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd.
125. Mae is-adran (6) yn diffinio'r "cyfnod adrodd" yn achos yr Adroddiad Effaith cyntaf, y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae adran 8 yn dod i rym hyd at 31 Rhagfyr 2029. Ar gyfer Adroddiadau Effaith dilynol, y 'cyfnod adrodd' fydd cyfnodau olynol o bum mlynedd.
126. Mae is-adran (7) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio'r cyfnod adrodd. Caiff hyn ei roi ar waith, er enghraifft, er mwyn i'r cyfnod adrodd gyd-fynd â hyd contractau'r cynlluniau o dan adran 8.

### **Adran 15 - Camau i'w cymryd wrth lunio adroddiad o dan adran 13**

127. Mae adran 15 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i faterion penodol wrth lunio Adroddiad Effaith. Mae'r rhain yn cynnwys y dibenion a restrir yn adran 8(2), pob adroddiad blynyddol a gyhoeddir mewn perthynas â'r cyfnod y mae'r Adroddiad Effaith yn ymwneud ag ef, a'r Adroddiad Effaith diweddaraf. Mae'n ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw faterion eraill y maent yn eu bod yn briodol, gan adlewyrchu'r angen am hyblygrwydd i deilwra pob Adroddiad Effaith i unrhyw amgylchiadau penodol a allai fod yn berthnasol.
128. Y bwriad wrth wraidd hyn yw hyrwyddo a chwblhau gwerthusiad cadarn o effaith y cymorth a ddarparwyd o dan y pŵer i ddarparu cymorth.

122. Subsection (3) provides that the Impact Report must include an assessment of the impact and effectiveness of support given during the reporting period, including an assessment of: (a) the way in which, and the extent to which, the support has achieved the purposes for which the support was given; and (b) the way in which, and the extent to which, the provision of the support has contributed to achieving the SLM objectives. Setting out the purposes in the way required under subsection (2) aims to highlight the link between support provided and the intended outcome of such support and is aimed at ensuring that the impact and effectiveness of support provided can clearly be measured against the purposes.
123. Subsection (4) provides that the Welsh Ministers may assess and report on any other matters they consider relevant for assessing the impact and effectiveness of support provided during the reporting period. For example, this could include information on whether any actions taken under a support scheme are still suitable, whether they have been achieved; are still in progress; or not actioned, together with any corrective action to remedy the issue. This information may even capture whether the administration of any scheme is fit for purpose.
124. Subsection (5) requires the Welsh Ministers to publish and lay the Impact Report before Senedd Cymru no later than 12 months after the end of each reporting period.
125. Subsection (6) defines the “reporting period” as being, for the first Impact Report, the period from when section 8 comes into force up until 31 December 2029. For subsequent Impact Reports the ‘reporting period’ will be successive periods of five years.
126. Subsection (7) provides the Welsh Ministers with a regulation making power, to amend the reporting period. This may be exercised, for example, in order to align the reporting period with the contract length of schemes under Section 8.

### **Section 15 - Steps to be taken in preparing report under section 13**

127. Section 15 requires the Welsh Ministers to have regard to certain matters during the preparation of an Impact Report. These include the purposes listed in section 8(2), each annual report that has been published in respect of the period covered by the Impact Report and the most recent Impact Report. The Welsh Ministers are also required to have regard to any other matters which they consider appropriate, reflecting the need for flexibility for each Impact Report to be tailored to any particular circumstances that may be relevant.
128. The intention behind this is to promote a complete and robust evaluation of the impact of support provided under the power to provide support.

## **Pennod 2 - Pwerau i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ariannol a chymorth arall**

129. Mae Pennod 2 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth bresennol, sy'n disodli rhai pwerau sydd â therfyn amser iddynt yn Neddf 2020.

## **Adran 16 - Pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol**

130. Mae adran 16 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i addasu deddfwriaeth sy'n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol i'r graddau y mae'n cael effaith o ran Cymru. Bwriad y pŵer hwn yw caniatáu i Weinidogion Cymru wneud newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol, er enghraifft mewn cysylltiad â symud o daliadau a wneir o dan gynllun y taliad sylfaenol a dod â chynllun y taliad sylfaenol i ben. Rhestrir y ddeddfwriaeth y mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w haddasu o dan yr adran hon yn is-adran (2).

## **Adran 17 - Pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r polisi amaethyddol cyffredin**

131. Mae adran 17 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud ag ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin i'r graddau y mae'n cael effaith o ran Cymru.

132. Bwriad y pŵer hwn yw galluogi Gweinidogion Cymru i wneud addasiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin er mwyn sicrhau proses bontio a reolir. Y bwriad yw y bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu ar gyfer parhau â gweithredu cymorth ffermio presennol am gyfnod penodol, wrth gyflwyno unrhyw gynllun newydd o dan adran 8. Bwriad hyn yw sicrhau bod y sector amaethyddol yn gweithredu'n effeithiol. Rhestrir y ddeddfwriaeth y mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w haddasu o dan yr adran hon yn is-adran (2).

## **Adran 18 - Pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer gwenynyddiaeth**

133. Mae Rhaglen Wenynyddiaeth yr UE yn cefnogi gwenyna drwy'r rhaglenni gwenynyddiaeth cenedlaethol, sydd â'r nod o wella amodau cyffredinol ar gyfer cynhyrchu a marchnata mêl a chynhyrchion gwenynyddiaeth eraill. Mae'n cynnwys cymorth technegol i wenywyr, brwydro yn erbyn clefydau a phlâu, trawstrefa, cymorth y labordy a'r farchnad ar gyfer cynhyrchion gwenynyddiaeth, ailstocio, rhaglenni ymchwil gynhwysol, monitro'r farchnad a gwella ansawdd cynhyrchion.

134. Mae adran 18 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â gwenynyddiaeth i'r graddau y mae'n cael effaith o ran Cymru. Rhestrir y ddeddfwriaeth y mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w haddasu o dan yr adran hon yn is-adran (2).

## **Chapter 2 - Powers to modify legislation relating to financial and other support**

129. Chapter 2 confers powers on the Welsh Ministers, in relation to existing legislation, that replace certain time limited powers in the 2020 Act.

### **Section 16 - Power to modify legislation governing the basic payment scheme**

130. Section 16 provides the Welsh Ministers with the power by regulations to modify legislation governing the basic payment scheme so far as it has effect in relation to Wales. This power is intended to permit the Welsh Ministers to make changes to legislation governing the basic payment scheme, for example in connection with the transition away from payments made under the basic payment scheme and the closing down of the basic payment scheme. The legislation that the Welsh Ministers have the power to modify under this section is listed in subsection (2).

### **Section 17 - Power to modify legislation relating to the common agricultural policy**

131. Section 17 provides the Welsh Ministers with the power by regulations to modify legislation relating to the financing, management and monitoring of the common agricultural policy so far as it has effect in relation to Wales.

132. This power is intended to enable the Welsh Ministers to make modifications to legislation relating to the financing, management and monitoring of the common agricultural policy, in order to ensure a managed transition. The intention is that this power will be used to provide for the continued operation of existing farming support for a certain period, whilst any new scheme established under section 8 is introduced. This is intended to secure the effective operation of the agricultural sector. The legislation that the Welsh Ministers have the power to modify under this section is listed in subsection (2).

### **Section 18 - Power to modify legislation relating to support for apiculture**

133. The EU's Apiculture Programme supports beekeeping through the national apiculture programmes, which aim to improve general conditions for the production and marketing of honey and other apiculture products. It covers technical assistance to beekeepers, combatting disease and pests, transhumance, laboratory and market support for apiculture products, restocking, applied research programmes, market monitoring and enhancement of product quality.

134. Section 18 provides the Welsh Ministers with the power by regulations to modify legislation relating to apiculture so far as it has effect in relation to Wales. The legislation that the Welsh Ministers have the power to modify under this section is listed in subsection (2).

### **Adran 19 - Pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig**

135. Mae adran 19 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â datblygu gwledig i'r graddau y mae'n cael effaith o ran Cymru. Rhestrir y ddeddfwriaeth y mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w haddasu o dan yr adran hon yn is-adran (2).

### **Adran 20 - Pwerau eraill i addasu deddfwriaeth nad yw'r pwerau yn y Bennod hon yn effeithio arni**

136. Mae'r adran hon yn pennu nas effeithir ar unrhyw bŵer arall o dan ddeddfiad i addasu darpariaethau deddfwriaeth sy'n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol, neu'n ymwneud â'r polisi amaethyddol cyffredin, gwenynyddiaeth neu ddatblygu gwledig gan y pwerau a roddir yn y Bennod hon.

### **Pennod 3 - Ymyrraeth mewn marchnadoedd amaethyddol**

#### **Adran 21 - Datganiad yn ymwneud ag amodau eithriadol yn y farchnad**

137. Mae adran 21 yn gwneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru wneud datganiad "amodau eithriadol yn y farchnad", er mwyn gallu rhoi cymorth ariannol fel a ddisgrifir yn adran 21.
138. Mae is-adran (2) yn nodi prawf dwy-ran i benderfynu a oes amodau eithriadol yn y farchnad yn bodoli ai peidio. Mae is-adran (3) yn nodi beth sy'n rhaid ei gynnwys mewn datganiad amodau eithriadol yn y farchnad.
139. Mae is-adran (5) yn datgan bod datganiad amodau eithriadol yn y farchnad yn cael effaith hyd nes dyddiad a bennir yn y datganiad o dan is-adran (3): effaith is-adran (4) yw bod rhaid i'r dyddiad hwn fod o fewn y cyfnod o dri mis sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddir y datganiad.
140. Mae is-adran (6) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddirymu datganiad a wnaed o dan is-adran (1) drwy wneud a chyhoeddi datganiad pellach i'r perwyl hwnnw.
141. Mae is-adrannau (7) ac (8) yn caniatáu i Weinidogion Cymru estyn datganiad amodau eithriadol yn y farchnad am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis, os yw'r amodau eithriadol yn y farchnad yn parhau yn ystod cyfnod o saith niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod a bennwyd yn wreiddiol yn y datganiad o dan is-adran (3).
142. Mae is-adran (9) yn datgan nad yw'r ffaith bod datganiad a wnaed o dan is-adran (1) mewn perthynas ag amodau eithriadol yn y farchnad wedi dod i ben, neu wedi ei ddirymu yn atal Gweinidogion Cymru rhag gwneud a chyhoeddi datganiad amodau eithriadol yn y farchnad arall yn ymwneud â'r un amodau eithriadol yn y farchnad.
143. Mae is-adran (10) yn datgan bod rhaid gosod copi o unrhyw ddatganiad a wneir ac a gyhoeddir o dan yr adran gerbron Senedd Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae is-adran 11 yn nodi bod cyhoeddi datganiad i'w wneud yn electronig.

### **Section 19 - Power to modify legislation relating to support for rural development**

135. Section 19 provides the Welsh Ministers with the power by regulations to modify legislation relating to support for rural development in so far as it has effect in relation to Wales. The legislation that the Welsh Ministers have the power to modify under this section is listed in subsection (2).

### **Section 20 - Relationship with other powers to modify legislation**

136. This section specifies that any other power under an enactment to modify provisions of legislation governing the basic payment scheme, or relating to the common agricultural policy, apiculture or rural development, is unaffected by the powers conferred in this Chapter.

## **Chapter 3 - Intervention in agricultural markets**

### **Section 21 - Declaration relating to exceptional market conditions**

137. Section 21 makes provision for circumstances in which the Welsh Ministers may make an “exceptional market conditions” declaration, so as to enable financial support to be given as described in section 21.
138. Subsection (2) sets out a two-part test to determine whether exceptional market conditions exist. Subsection (3) sets out what must be included in an exceptional market conditions declaration.
139. Subsection (5) states that an exceptional market conditions declaration has effect until a date specified in the declaration under subsection (3): the effect of subsection (4) is that this date must be within the period of three months beginning with the day on which the declaration is published.
140. Subsection (6) allows the Welsh Ministers to revoke a declaration made under subsection (1) by making and publishing a further declaration to that effect.
141. Subsections (7) and (8) allow the Welsh Ministers to extend an exceptional market conditions declaration for a period of no more than three months, if within the period of seven days ending with the date originally specified in the declaration under subsection (3), that there continue to be exceptional market conditions.
142. Subsection (9) states that the expiration or revocation of a declaration made under subsection (1) in respect of exceptional market conditions does not prevent the Welsh Ministers from making and publishing another declaration relating to the same exceptional market conditions.
143. Subsection (10) states that a copy of any declaration made and published under the section must be laid before Senedd Cymru as soon as practicable. Subsection (11) sets out that publication of a declaration is to be done electronically.

## **Adran 22 - Amodau eithriadol yn y farchnad: y pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru**

144. Mae'r adran hon yn pennu'r pwerau sydd ar gael wrth i ddatganiad amodau eithriadol yn y farchnad gael effaith.
145. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu, neu gytuno i ddarparu, cymorth ariannol i gynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru y mae'r amodau eithriadol yn y farchnad a ddisgrifir yn y datganiad wedi cael, yn cael, neu'n debygol o gael, effaith andwyol ar eu hincwm.
146. Effaith is-adran (3) yw nad yw bodolaeth y pŵer o dan adran 22 yn atal Gweinidogion Cymru rhag defnyddio unrhyw bwerau eraill sydd ar gael i ddarparu cymorth ariannol i gynhyrchwyr amaethyddol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) pwerau o dan ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir. (Yr effaith yw nad yw'r pŵer sydd ar gael o dan adran 22 yn cyfyngu ar unrhyw bwerau a allai hefyd fod ar gael i Weinidogion Cymru, er enghraifft, o dan adran 8.)
147. Mae is-adran (4) yn caniatáu darparu cymorth ariannol ar unrhyw ffurf ac mae is-adran (5) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i'w ddarparu yn ddarostyngedig i amodau.
148. Mae is-adran (6) yn datgan y caniateir i'r amodau hynny gynnwys darpariaeth i gymorth ariannol o dan adran 22 gael ei ad-dalu. Mae is-adran (7) yn egluro y caiff Gweinidogion Cymru barhau i ddarparu cymorth ariannol ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r datganiad amodau eithriadol yn y farchnad yn cael effaith, ar yr amod bod cais wedi ei wneud amdano yn ystod y cyfnod hwnnw.

## **Adran 23 - Pŵer i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrraeth yn y farchnad gyhoeddus a chymorth ar gyfer storio preifat**

149. Mae adran 23 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrraeth yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat, i'r graddau y mae'n cael effaith o ran Cymru.
150. Mae is-adran (2) yn pennu bod y pŵer o dan yr adran hon yn cynnwys pŵer i newid y cynhyrchion sy'n gymwys am ymyrraeth yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat. Gallai hyn fod o ganlyniad i'r ffaith bod amodau yn y farchnad ar gyfer cynnyrch penodol wedi newid, sy'n golygu nad oes galw am storio'r cynnyrch hwnnw mwyach.
151. Mae'r ddeddfwriaeth y mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w haddasu o dan yr adran hon wedi ei rhestru yn is-adran (3).
152. Mae is-adran (4) yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â'r Rheoliad CMO (a ddiffinnir yn adran 54). Mae'r Rheoliad CMO yn ymwneud â marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol.



**Section 22 - Exceptional market conditions: powers available to Welsh Ministers**

144. This section specifies the powers that are available while a declaration of exceptional market conditions has effect.
145. Subsection (2) provides that the Welsh Ministers may give, or agree to give, financial support to agricultural producers in Wales whose incomes have been, are being, or are likely to be, adversely affected by the exceptional market conditions described in the declaration.
146. The effect of subsection (3) is that the existence of the power under section 22 does not prevent the Welsh Ministers from using any other available powers to provide financial support to agricultural producers, including (but not limited to) powers under retained direct EU legislation. (The effect is that the availability of the section 22 power does not restrict any powers that may also be available to the Welsh Ministers under, for instance, section 8.)
147. Subsection (4) allows financial support to be provided in any form and subsection (5) gives the Welsh Ministers the power to provide it subject to conditions.
148. Subsection (6) states that those conditions may include provision for financial support under section 22 to be repaid. Subsection (7) clarifies that the Welsh Ministers may still provide financial support after a declaration of exceptional markets has ceased to have effect, provided that an application for it was made while the declaration had effect.

**Section 23 - Power to modify retained direct EU legislation relating to public market intervention and private storage aid**

149. Section 23 confers on the Welsh Ministers powers to modify retained direct EU legislation relating to public market intervention or aid for private storage, so far as it has effect in relation to Wales.
150. Subsection (2) specifies that the power under this section includes power to change the products eligible for public market intervention or aid for private storage. This could be because of market conditions for a certain product changing, so that there is no longer demand for its storage.
151. The legislation that the Welsh Ministers have the power to modify under this section is listed in subsection (3).
152. Subsection (4) makes provision that relates to the CMO Regulation (defined in section 54). The CMO Regulation relates to markets in agricultural products.

153. Mae Rhan 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2020 yn datgymhwysio darpariaethau penodol yn y Rheoliad CMO, o ran Cymru, cyhyd ag y bo'r ddarpariaeth bresennol â therfyn amser iddi ynghylch amodau eithriadol yn y farchnad yn Atodlen 5 i Ddeddf 2020 yn para. Gan fod y Ddeddf yn cymryd lle'r ddarpariaeth â therfyn amser iddi yn Atodlen 5, mae Atodlen 3 i'r Ddeddf yn diwygio'r Rheoliad CMO o ganlyniad i hynny (gan na fydd y diwygiad a wnaed iddo gan Atodlen 7 i Ddeddf 2020 yn briodol mwyach). Ond, gan nad yw'r diwygiad a wnaed i'r Rheoliad CMO gan Atodlen 7 i Ddeddf 2020 eto mewn grym, mae Atodlen 3 yn darparu (yn Rhan 1) ddiwygiadau canlyniadol amgen i'r Rheoliad CMO.
154. Yn adran 23, mae is-adran (4) yn nodi hyd nes y bydd y naill neu'r llall o'r diwygiadau canlyniadol yn Rhan 1 o Atodlen 3 mewn grym, bod cyfeiriadau yn adran 23 at amodau eithriadol yn y farchnad yn cynnwys cyfeiriadau at amgylchiadau sy'n destun mesurau o dan unrhyw un neu ragor o Erthyglau 219, 220, 221 a 222 o'r Rheoliad CMO. Darpariaeth ddarfodol yw hon, ac ni chaiff effaith mwyach pan fydd naill ai paragraff 1 neu baragraff 2 o Atodlen 3 wedi ei gychwyn. Yr effaith yw caniatáu hyblygrwydd o ran cychwyn adran 23 a Rhan 1 o Atodlen 3.

#### **Pennod 4 – Tenantiaethau amaethyddol**

##### **Adran 24 – Daliadau Amaethyddol: datrys anghydfod sy'n ymwneud â chymorth ariannol**

155. Mae Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 (yn adran 19A) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu i denant daliad amaethyddol allu cyfeirio anghydfod â landlord y tenant i'w gymrodeddu, pan fo'r anghydfod yn ymwneud â chais o fath penodol a wneir gan y tenant, a bo'r landlord wedi gwrthod y cais. Mae'r adran yn disgrifio'r mathau o gais dan sylw, gan gynnwys cais a wneir at ddiben galluogi'r tenant i wneud cais am gymorth ariannol perthnasol ("*relevant financial assistance*").
156. Mae adran 24 yn diwygio'r diffiniad o gymorth ariannol perthnasol ("*relevant financial assistance*") yn adran 19A o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 i gynnwys cymorth ariannol o dan adran 8, cymorth ariannol o dan gynllun trydydd parti fel y'i diffinnir yn adran 9(6), cymorth ariannol o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol, cymorth ariannol o dan ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r polisi amaethyddol cyffredin, cymorth ariannol o dan ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer gwenynyddiaeth, cymorth ariannol o dan ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig, a chymorth ariannol o dan adran 22. Mae hefyd yn gwneud rhai diwygiadau canlyniadol.

153. Part 2 of Schedule 7 to the 2020 Act disapplies certain provisions of the CMO Regulation, in relation to Wales, for the duration of existing time limited provision about exceptional market conditions in Schedule 5 to the 2020 Act. Since the Act is replacing the time limited provision in Schedule 5, Schedule 3 to the Act amends the CMO Regulation in consequence (in that the amendment made to it by Schedule 7 to the 2020 Act will cease to be appropriate). But since the amendment made by Schedule 7 to the 2020 Act to the CMO Regulation is not yet in force, Schedule 3 provides (in Part 1) alternative consequential amendments to the CMO Regulation.
154. In section 23, subsection (4) states that until either of the consequential amendments in Part 1 of Schedule 3 is in force, references in section 23 to exceptional market conditions include references to circumstances that are the subject of measures under any of Articles 219, 220, 221 and 222 of the CMO Regulation. This is a transitory provision which will no longer have any effect once either paragraph 1 or paragraph 2 of Schedule 3 has been commenced. The effect is to permit flexibility as to the commencement of section 23 and Part 1 of Schedule 3.

## **Chapter 4 - Agricultural tenancies**

### **Section 24 - Agricultural Holdings: dispute resolution relating to financial support**

155. The Agricultural Holdings Act 1986 (at section 19A) confers power on the Welsh Ministers to make regulations that provide for the tenant of an agricultural holding to be able to refer a dispute with the tenant's landlord to arbitration, where the dispute revolves around a certain type of request made by the tenant, which has been refused by the landlord. The section describes the types of request concerned: this includes a request made for the purpose of enabling the tenant to apply for "relevant financial assistance"
156. Section 24 amends the definition of "relevant financial assistance" in section 19A of the Agricultural Holdings Act 1986 to encompass financial assistance under section 8, financial assistance under a third party scheme as defined in section 9 (6), financial assistance under the Basic Payment Scheme (BPS), financial assistance under legislation relating to the common agricultural policy, financial assistance under legislation relating to support for apiculture, financial assistance under legislation relating to support for rural development, and financial assistance under section 22. It also makes some consequential amendments.

157. Mae adran 24 hefyd yn mewnosod adrannau newydd 8A a 36A yn Neddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995. Mae adran 8A yn darparu y caiff tenant tenantiaeth busnes fferm atgyfeirio anghydfod i'w gymrodeddu pan fo'r landlord wedi gwrthod cais i amrywio'r denantiaeth, neu gais am ganiatâd, a wnaed at ddibenion penodedig. Y dibenion hyn yw: diben gofyn am fathau penodedig o gymorth (gan gynnwys cymorth a ddarperir o dan adran 8) neu wneud cais amdanynt; a diben cydymffurfio â dyletswydd statudol. Mae adran 8A hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â chymrodeddu o'r fath. Mae adran 24 hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i adran 28(5) o Ddeddf 1995, ac yn mewnosod adran newydd 36A yn nodi'r weithdrefn sy'n gymwys i reoliadau o dan adran newydd 8A.
158. Bwriad y diwygiadau hyn yw mynd i'r afael â'r posibilrwydd y gallai fod angen cael cydsyniad landlord, neu amrywiad ar y denantiaeth ei hun, ar gyfer tenant daliad amaethyddol er mwyn manteisio ar gymorth ariannol o dan y ddeddfwriaeth y cyfeirir ati o dan adran 19A o Ddeddf 1986, fel y'i diwygir gan adran 24; neu i'r tenant o dan denantiaeth busnes fferm gael gafael ar gymorth o dan ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn adran newydd 8A o Ddeddf 1995, neu at ddibenion cydymffurfio â dyletswydd statudol.
159. Bydd y darpariaethau yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy Offeryn Statudol.

### **RHAN 3 - MATERION SY'N YMWNEUD AG AMAETHYDDIAETH A CHYNHYRCHION AMAETHYDDOL**

#### **Pennod 1 - Casglu a rhannu data**

160. Mae'r Bennod hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu.

#### **Adran 25 - Cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth: gofyniad i ddarparu gwybodaeth**

161. Mae adran 25 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i bersonau penodol ddarparu gwybodaeth am faterion penodol. Y personau hynny yw personau sydd mewn "cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth", neu sydd â chysylltiad agos â chadwyn gyflenwi o'r fath, ac mae'r wybodaeth dan sylw yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig ag unrhyw un neu ragor o weithgareddau'r person y mae cysylltiad rhyngddynt â'r gadwyn gyflenwi, i'r graddau y mae'r gweithgareddau hynny yn cael eu cynnal yng Nghymru. Diffinnir "cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth" yn adran 26.
162. Mae is-adran (2) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau o'r fath ddarparu gwybodaeth o'r fath.
163. Mae is-adran (4) yn darparu na chaniateir gosod gofyniad o dan is-adran (1) neu is-adran (2) ar unigolyn mewn cadwyn gyflenwi os yw'r unigolyn hwnnw yn y gadwyn gyflenwi gan mae ef, neu aelod o'i aelwyd, yw defnyddiwr olaf cynnyrch terfynol y gadwyn gyflenwi. Y bwriad yw sicrhau na fydd defnyddwyr cyffredin yn ddarostyngedig i ofynion o'r fath a ddisgrifir.

157. Section 24 also inserts new sections 8A and 36A into the Agricultural Tenancies Act 1995. Section 8A provides for the tenant of a farm business tenancy to refer a dispute to arbitration where the landlord has refused a request for the variation of the tenancy, or a request for consent, that was made for specified purposes. These purposes are: the purpose of requesting or applying for specified types of support (including support provided under section 8); and the purpose of complying with a statutory duty. Section 8A also provides the Welsh Ministers with a regulation-making power to make provision in connection with such arbitration. Section 24 also makes a consequential amendment to section 28(5) of the 1995 Act, and inserts a new section 36A setting out the procedure applicable to regulations under the new section 8A.
158. These amendments are intended to address the possibility that a landlord's consent, or a variation of the tenancy itself, could be required for the tenant of an agricultural holding in order to access financial assistance under the legislation referred to under section 19A of the 1986 Act, as amended by section 24; or for the tenant under a farm business tenancy to access support under legislation referred to in the new section 8A of the 1995 Act, or for the purposes of complying with a statutory duty.
159. The provisions will come into force on a day appointed by the Welsh Ministers in an order made by Statutory Instrument.

## **PART 3 - MATTERS RELATING TO AGRICULTURE AND AGRICULTURAL PRODUCTS**

### **Chapter 1 - Collection and sharing of data**

160. This Chapter confers power on the Welsh Ministers to require the provision of information.

### **Section 25 - Agri-food supply chains: requirement to provide information**

161. Section 25 confers power on the Welsh Ministers to require certain persons to provide information about certain matters. The persons are those in, or closely connected with, an "agri-food supply chain", and the information is about matters connected with any of the person's activities connected with that supply chain, so far as those activities take place in Wales. "Agri-food supply chain" is defined in section 26.
162. Subsection (2) confers power on the Welsh Ministers to make regulations requiring persons of the same type to provide information of the same type.
163. Subsection (4) provides that a requirement under subsection (1) or subsection (2) may not be imposed on an individual in a supply chain if they are in the supply chain because they, or a member of their household, are the ultimate consumer of the end-product of the supply chain. The intention is to ensure that ordinary consumers cannot be subject to requirements of the type described.

164. Mae is-adran (5) yn eithrio o'r gofynion unrhyw wybodaeth sy'n ddarostyngedig i fraint gyfreithiol.
165. Mae is-adran (6) yn darparu bod rhaid i unrhyw ofyniad a osodir o dan is-adran (1) fod yn ysgrifenedig.

#### **Adran 26 - Ystyr "cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth"**

166. Mae is-adran (2) yn diffinio "cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth".
167. Mae is-adran (3) yn diffinio personau "mewn" cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth. Mae is-adran (4) yn diffinio personau sydd â "cysylltiad agos" â chadwyn gyflenwi bwyd-amaeth, gan gynnwys personau sy'n cyflenwi hadau, stoc, cyfarpar, bwyd anifeiliaid, gwrtait, plaladdwyr, meddyginiaethau neu eitemau tebyg, yn ogystal â phersonau sy'n darparu gwasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid, iechyd planhigion a diogelwch bwyd.

#### **Adran 27 - Gweithgaredd perthnasol: gofyniad i ddarparu gwybodaeth**

168. Mae adran 27 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i berson sy'n cynnal "gweithgaredd perthnasol" (ac nad yw "mewn" cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth, neu â "cysylltiad agos" â chadwyn o'r fath) ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd hwnnw, i'r graddau y mae'n cael ei gynnal yng Nghymru. Diffinnir "gweithgaredd perthnasol" yn adran 28.
169. Mae is-adran (2) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau o'r fath ddarparu gwybodaeth o'r fath.
170. Mae is-adran (4) yn darparu na chaniateir gosod gofyniad o dan is-adran (1) nac is-adran (2) ar berson mewn perthynas â gweithgaredd perthnasol i'r graddau y cynhelir y gweithgaredd ac eithrio i wneud elw neu i gael budd.
171. Mae is-adran (5) yn eithrio o'r gofynion unrhyw wybodaeth sy'n ddarostyngedig i fraint gyfreithiol.
172. Mae is-adran (6) yn darparu bod rhaid i unrhyw ofyniad a osodir o dan is-adran (1) fod yn ysgrifenedig.

#### **Adran 28 - Ystyr "gweithgaredd perthnasol"**

173. Mae adran 28 yn diffinio "gweithgaredd perthnasol": yr effaith yw bod gweithgaredd a restrir yn adran 51(1) (sy'n diffinio "amaethyddiaeth") yn "gweithgaredd perthnasol", a bod "gweithgaredd ategol" hefyd yn "gweithgaredd perthnasol". Diffinnir "gweithgaredd ategol" yn adran 52.
174. Canlyniad y diffiniadau hyn, ynghyd ag adran 27, yw ei bod yn bosibl gosod gofyniad i ddarparu gwybodaeth o dan adran 27 mewn cysylltiad ag, er enghraifft, weithgaredd sy'n ymwneud â garddwriaeth addurniadol, neu weithgaredd sy'n ymwneud â thyfu cnydau ar gyfer ynni.

164. Subsection (5) exempts from the requirements any information which is subject to legal privilege.
165. Subsection (6) provides that any requirement imposed under subsection (1) must be in writing.

### **Section 26 - Meaning of "agri-food supply chain"**

166. Subsection (2) defines an "agri-food supply chain".
167. Subsection (3) defines persons "in" an agri-food supply chain. Subsection (4) defines persons "closely connected" with an agri-food supply chain: these persons include suppliers of seeds, stock, equipment, feed, fertiliser, pesticides, medicines or similar items, as well as persons providing services related to animal health, plant health and food safety.

### **Section 27 - Relevant activity: requirement to provide information**

168. Section 27 confers power on the Welsh Ministers to require a person who carries on a "relevant activity" (and is not "in" or "closely connected" with an agri-food supply chain) to provide information about matters connected with that activity, so far as it takes place in Wales. "Relevant activity" is defined in section 28.
169. Subsection (2) confers power on the Welsh Ministers to make regulations requiring persons of the same type to provide information of the same type.
170. Subsection (4) provides that a requirement under subsection (1) or subsection (2) may not be imposed on a person in relation to a relevant activity so far as the activity is carried on otherwise than for profit or reward.
171. Subsection (5) exempts from the requirements any information which is subject to legal privilege.
172. Subsection (6) provides that any requirement imposed under subsection (1) must be in writing.

### **Section 28 - Meaning of "relevant activity"**

173. Section 28 defines a "relevant activity": the effect is that an activity listed in section 51(1) (which defines "agriculture") is a "relevant activity", as is an "ancillary activity". "Ancillary activity" is defined in section 52.
174. The result of these definitions, taken with section 27, is that a requirement to provide information can potentially be imposed under section 27 in respect of, for example, an activity related to ornamental horticulture, or an activity relating to the growing of crops for energy.

**Adran 29 – Gofyniad i bennu dibenion y caniateir prosesu gwybodaeth ar eu cyfer**

175. Mae is-adran (1) yn gosod rhwymedigaeth ar ofyniad a osodir o dan adran 25 neu 27 i bennu'r dibenion y caniateir prosesu'r wybodaeth ar eu cyfer. Rhaid i'r dibenion fod ar y rhestr o ddibenion yn is-adran (4) neu fod wedi eu cwmpasu gan y rhestr honno.
176. Bwriad y dibenion yn is-adran (4), ymysg pethau eraill, yw caniatáu prosesu gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n helpu ffermwyr a chynhyrchwyr eraill i gynyddu cynhyrchiant, lleihau gwastraff a gwella gwytnwch i amrywiaeth o risgiau.
177. Y bwriad hefyd yw caniatáu prosesu gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n cefnogi iechyd anifeiliaid a phlanhigion drwy gasglu a rhannu data ar enedigaethau, marwolaethau a symudiadau anifeiliaid, arwyddion o glefyd a'r defnydd o feddyginiaeth filfeddygol, yn ogystal â mewnfudo planhigion, a phlâu a chlefydau planhigion.

**Adran 30 – Dyletswydd i gyhoeddi gofyniad o dan adran 25(1) neu 27(1) ar ffurf drafft**

178. Mae is-adran (1)(a)(i) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi drafft o ofyniad o dan adran 25(1) neu adran 27(1) cyn ei osod. Mae is-adran (1)(a)(ii) a (iii) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hefyd gyhoeddi disgrifiad o'r personau y bwriedir gosod y gofyniad arnynt, a'r terfyn amser ar gyfer sylwadau. Effaith is-adran (1)(b) yw y caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a ddaeth i law, benderfynu gosod y gofyniad naill ai ar y ffurf a gyhoeddwyd neu ar ffurf ddiwygiedig.
179. Mae is-adran (2) yn nodi, ar ôl penderfynu ar delerau terfynol y gofyniad, y caiff Gweinidogion Cymru osod y gofyniad ar unrhyw adeg ar berson o fewn y disgrifiad a gyhoeddir o dan is-adran (1)(a)(ii).

**Adran 31 – Darparu'r wybodaeth ofynnol a chyfyngiadau ar ei phrosesu**

180. Mae adran 31 yn pennu na chaniateir prosesu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i ofyniad ac eithrio at y dibenion a bennir yn y gofyniad.
181. Mae is-adran (3) yn darparu bod y cyfyngiad hwn ar brosesu yn gymwys i dderbynnydd yr wybodaeth, ac i unrhyw berson y datgelir yr wybodaeth iddo wedyn. (Ond, mewn achos person y datgelir yr wybodaeth iddo wedyn, ni chaniateir prosesu'r wybodaeth mewn ffyrdd sy'n groes i delerau'r datgeliad, hyd yn oed pan fo telerau'r gofyniad gwreiddiol yn caniatáu'r math hwn o brosesu.)
182. Mae is-adran (5) yn nodi materion y caniateir delio â nhw yn y gofyniad i ddarparu gwybodaeth.
183. Mae is-adran (6) yn gosod rhwymedigaeth ar y gofyniad i bennu'r mathau o brosesu y caniateir eu defnyddio wrth drin yr wybodaeth a roddir ac ar ba ffurfiau y caniateir i'r wybodaeth gael ei datgelu.
184. Mae is-adran (7) yn nodi na chaniateir i'r wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r gofyniad fod yn ddarostyngedig i fathau o brosesu heblaw am y rheini a bennir yn y gofyniad (oni bai bod y gofyniad yn pennu amgylchiadau y caniateir i ffurfiau eraill o brosesu neu ddatgelu ddiwydd odanynt).



### **Section 29 - Requirement to specify purposes for which information may be processed**

175. Subsection (1) obliges a requirement imposed under section 25 or 27 to specify the purposes for which the information required may be processed. The purposes must be in, or covered by, the list of purposes in subsection (4).
176. The purposes in subsection (4) are intended, among other things, to permit the processing of information in ways that help farmers and other producers to increase productivity, minimise waste and increase resilience to a range of risks.
177. The intention is, also, to permit the processing of information in ways that support animal and plant health through the collection and sharing of data on animal births, deaths and movements, disease signs and veterinary medicine use as well as plant imports and plant pests and diseases.

### **Section 30 - Duty to publish requirement under section 25(1) or 27(1) in draft**

178. Subsection (1)(a)(i) requires the Welsh Ministers to publish a draft of a requirement under section 25(1) or section 27(1) before imposing it. Subsection (1) (a)(ii) and (iii) require the Welsh Ministers also to publish a description of the persons on whom it is proposed that the requirement be imposed, and the deadline for comments. The effect of subsection (1)(b) is that, having considered any comments received, the Welsh Ministers may decide to impose the requirement in either its published form or a revised form.
179. Subsection (2) states that, once final terms of the requirement have been decided, the Welsh Ministers may impose the requirement at any time on a person within the description published under subsection (1)(a)(ii).

### **Section 31 - Provision of required information and limitations on its processing**

180. Section 31 stipulates that information provided in response to a requirement may be processed only for the purposes specified in the requirement.
181. Subsection (3) provides that this restriction on processing applies to the recipient of the information, and anyone to whom it is subsequently disclosed. (But, in the case of a person to whom the information is subsequently disclosed, the information cannot be processed in ways that are contrary to the terms of the disclosure, even where this type of processing would be permitted by the terms of the original requirement.)
182. Subsection (5) sets out matters that may be dealt within the requirement to provide information.
183. Subsection (6) obliges the requirement to specify the types of processing to which the information supplied may be subjected and the forms in which information supplied may be disclosed.
184. Subsection (7) sets out that information provided in response to a requirement may not be subjected to types of processing, or disclosed in any form, other than as specified in the requirement (unless the requirement specifies circumstances in which other forms of processing or disclosure may occur).

185. Mae is-adran (8) yn pennu, pan fwriedir datgelu gwybodaeth a ddarperir o dan ofyniad ar ffurf a bennir yn y gofyniad, neu a ganiateir ganddo, mae'r gofyniad yn is-adran (9) yn gymwys.
186. Mae is-adran (9)(a) yn darparu pan fwriedir datgelu'r wybodaeth ar ffurf nad yw'n ffurf ddienw, rhaid i'r person sy'n bwriadu datgelu'r wybodaeth ystyried a fyddai datgelu'r wybodaeth ar y ffurf honno yn rhagfarnu, neu yn gallu rhagfarnu, buddion masnachol unrhyw berson.
187. Mae is-adran (9)(b) yn darparu, os yw'r person sy'n bwriadu datgelu'r wybodaeth yn ystyried y byddai datgelu'r wybodaeth ar y ffurf honno (h.y. ar ffurf nad yw'n ffurf ddienw) yn rhagfarnu, neu yn gallu rhagfarnu, buddion masnachol unrhyw berson, rhaid i'r wybodaeth gael ei datgelu yn hytrach ar ffurf ddienw.
188. Effaith is-adran (10) yw bod eithriad i'r gofyniad a osodir gan is-adran (9)(b): os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod er budd y cyhoedd i'r wybodaeth gael ei datgelu ar ffurf nad yw'n ffurf ddienw, caniateir i'r wybodaeth gael ei datgelu ar ffurf nad yw'n ddienw, cyn belled â bod y datgeliad ar ffurf a ganiateir gan y gofyniad y darparwyd yr wybodaeth odano.
189. Mae is-adran (11) yn diffinio ystyr "prosesu", mewn perthynas â gwybodaeth.

### **Adran 32 – Gorfodi gofynion gwybodaeth**

190. Mae adran 32 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer gorfodi gofyniad a osodir o dan adran 25 neu 27. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch (ymysg pethau eraill) gosbau am beidio â chydymffurfio, ac apelau a rhoi swyddogaethau i berson.
191. Gallai'r rheoliadau er enghraifft bennu'r sancsiynau a gaiff eu cymhwyso os bydd rhywun yn methu â darparu gwybodaeth neu'n darparu gwybodaeth anwir.
192. Effaith is-adran (4) yw y gellir pennu'r cosbau y darperir ar eu cyfer yn y rheoliadau drwy gyfeirio at incwm, trosiant neu elw person. Yr amcan sy'n sail i hyn yw caniatáu gosod dirwyon ar lefelau priodol ar gyfer personau gwahanol.

### **Adran 33 - Adolygu gweithrediad ac effaith adrannau 25 i 32**

193. Mae adran 33 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad bob pum mlynedd ar weithrediad ac effaith adrannau 25 i 32 yn ystod y cyfnod pum mlynedd hwnnw.

### **Pennod 2 – Safonau Marchnata: Cynhyrchion amaethyddol**

194. Mae adran 34 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â safonau y mae rhaid i gynhyrchion amaethyddol penodol gydymffurfio â hwy pan gânt eu marchnata yng Nghymru. Mae'r pwerau yn disodli pwerau â therfyn amser iddynt a roddwyd gan baragraff 16 o Atodlen 5 i Ddeddf 2020.

185. Subsection (8) specifies that, where there is a proposal for information provided under a requirement to be disclosed in a form specified in, or permitted by, the requirement, the requirement in subsection (9) applies.
186. Subsection (9)(a) provides that where the proposal is to disclose the information otherwise than in anonymised form, the person proposing the disclosure must consider whether disclosure in that form would, or might, prejudice the commercial interests of any person.
187. Subsection 9(b) provides that, if the person proposing the disclosure considers that the disclosure in that form (i.e. non-anonymised) would or might prejudice the commercial interests of any person, the disclosure must instead be in an anonymised form.
188. The effect of subsection (10) is that there is an exception to the requirement imposed by subsection (9)(b): if the Welsh Ministers consider it is in the public interest for the information to be disclosed in a non-anonymised form, the disclosure may take place in non-anonymised form, so long as the form of disclosure is permitted by the requirement under which the information was provided.
189. Subsection (11) defines what is meant by “processing”, in relation to information.

### **Section 32 - Enforcement of information requirements**

190. Section 32 confers power on the Welsh Ministers to make regulations providing for enforcement of a requirement imposed under section 25 or 27. The regulations may make provision about (among other things) penalties for non-compliance, and appeals and conferring functions on a person.
191. The regulations might for instance specify the sanctions that will be applied (if someone fails to provide information or provides false information).
192. The effect of subsection (4) is that penalties provided for in the regulations can be fixed by reference to a person’s income, turnover or profits. The objective behind this is to permit fines to be set at an appropriate level for different persons.

### **Section 33 - Review of operation and effect of sections 25 to 32**

193. Section 33 requires the Welsh Ministers to prepare a report every five years about the operation and effect of sections 25 to 32 during that five year period.

### **Chapter 2 - Marketing Standards: Agricultural products**

194. Section 34 confers powers on the Welsh Ministers in respect of standards with which certain agricultural products must conform when marketed in Wales. The powers replace time limited powers conferred by paragraph 16 of Schedule 5 to the 2020 Act.

### **Adran 34 – Safonau marchnata**

195. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch safonau y mae rhaid i gynhyrchion amaethyddol penodol gydymffurfio â hwy pan gânt eu marchnata yng Nghymru. Y cynhyrchion hynny yw'r cynhyrchion a restrir yn Atodlen 1.
196. Mae is-adran (2) yn darparu rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o faterion y caiff y rheoliadau wneud darpariaeth yn eu cylch; er enghraifft, meini prawf megis edrychiad, math o ffermio neu ddull cynhyrchu, a storio a chludiant.
197. Mae is-adran (3) yn nodi na chaiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y man ffermio neu'r tarddle mewn perthynas â dofednod byw, cig dofednod na brasterau taenadwy.
198. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch gorfodi ac yn nodi rhai o'r materion y caniateir eu cynnwys, gan gynnwys pwerau mynediad, creu troseddau diannod a gosod cosbau ariannol.
199. Mae is-adran (5) yn nodi na chaiff rheoliadau a wneir o dan adran 34 awdurdodi mynediad i annedd breifat heb warant a ddyroddir gan ynad heddwch. Diffinnir "annedd breifat" yn adran 54.
200. Mae is-adran (6) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr o gynhyrchion amaethyddol yn Atodlen 1 (pa un ai drwy ychwanegu cynnyrch at y rhestr, dileu cynnyrch, neu newid y disgrifiad o gynnyrch).

### **Pennod 3**

#### **Dosbarthiad carcasau penodol etc.**

201. Mae adran 35 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â dosbarthiad, dull adnabod a chyflwyno carcasau penodol gan ladd-dai yng Nghymru. Mae'r pwerau yn disodli pwerau â therfyn amser iddynt a roddir gan baragraff 18 o Atodlen 5 i Ddeddf 2020.

### **Adran 35 – Dosbarthiad carcasau**

202. Mae is-adran (1) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy reoliadau ynghylch dosbarthiad, dull adnabod a chyflwyniad carcasau buchol, moch a defaid gan ladd-dai yng Nghymru.
203. Mae is-adran (2) yn nodi y caiff rheoliadau a wneir o dan is-adran 1 gynnwys darpariaeth am orfodi, ac y caiff hyn gynnwys, er enghraifft, ddarpariaeth sy'n rhoi pwerau mynediad, sy'n creu troseddau diannod ac sy'n gosod cosbau ariannol.
204. Mae is-adran (3) yn nodi na chaiff rheoliadau a wneir o dan adran 35 awdurdodi mynediad i annedd breifat heb warant a ddyroddir gan ynad heddwch. Diffinnir "annedd breifat" yn adran 54.
205. Mae is-adran (4) yn diffinio "moch" at ddibenion yr adran hon o'r Rheoliadau mewn ffordd sy'n cynnwys baeddod gwyllt a moch fferal eraill.

### **Section 34 - Marketing standards**

195. Subsection (1) provides that the Welsh Ministers may, by regulations, make provision about standards with which certain agricultural products must conform when marketed in Wales. The products are those listed in Schedule 1.
196. Subsection (2) provides a non-exhaustive list of matters that the regulations may make provision about; for example, criteria such as appearance, type of farming or production method, and storage and transport.
197. Subsection (3) states that the regulations cannot make provision about the place of farming or origin in relation to live poultry, poultry meat or spreadable fats.
198. Subsection (4) provides that the regulations may make provision about enforcement and outlines some of the matters that may be covered. These include powers of entry, the creation of summary offences and the imposition of monetary penalties.
199. Subsection (5) states that regulations made under section 34 may not authorise entry to a private dwelling without a warrant issued by a justice of the peace. "Private dwelling" is defined in section 54.
200. Subsection (6) allows the Welsh Ministers to make regulations to amend the list of agricultural products at Schedule 1 (whether by adding a product to the list, removing a product, or altering the description of a product).

## **Chapter 3**

### **Classification etc of certain carcasses**

201. Section 35 confers powers on the Welsh Ministers in respect of the classification, identification and presentation of certain carcasses by slaughterhouses in Wales. The powers replace time limited powers conferred by paragraph 18 of Schedule 5 to the 2020 Act.

### **Section 35 - Carcass classification**

202. Subsection (1) confers powers on the Welsh Ministers to make provision by regulation about the classification, identification and presentation of bovine, pig and sheep carcasses by slaughterhouses in Wales.
203. Subsection (2) states that regulations made under subsection 1 may include provision about enforcement, and that this may include, for example, provision conferring powers of entry, creating summary offences and imposing monetary penalties.
204. Subsection (3) states that regulations made under section 35 may not authorise entry to a private dwelling, without a warrant issued by a justice of the peace. "Private dwelling" is defined at section 54.
205. Subsection (4) defines "pigs" for the purposes of this section of the Regulations as including wild boar and other feral pigs.

## RHAN 4 - COEDWIGAETH

### Adran 36 - Trosolwg o'r Rhan

206. Mae'r adran hon yn egluro'r ffordd y mae'r rhan hon o'r Ddeddf yn diwygio Rhan 2 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 (p. 10) o ran Cymru.

### Adran 37 - Amodau trwyddedau cwmpo coed

207. Mae adran 37 yn diwygio adran 10 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 i alluogi Corff Adnoddau Naturiol Cymru ("CNC"), fel yr awdurdod coedwigaeth priodol ("*appropriate forestry authority*") i Gymru o dan y Ddeddf, i osod amodau ar roi trwydded cwmpo coed os yw CNC yn ystyried y byddai'n hwylus i wneud hynny at ddiben (i) gwarchod neu wella harddwch naturiol, neu (ii) gwarchod fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffysiograffegol, neu gynefinoedd naturiol.
208. Ar hyn o bryd, mae adran 10 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 yn galluogi CNC i osod amodau at ddibenion penodol wrth roi trwyddedau cwmpo coed. Mae'r diwygiad hwn yn ychwanegu diben arall y bydd CNC yn gallu gosod amodau ar ei gyfer ar drwyddedau cwmpo coed newydd. Bydd yn galluogi CNC i gynnwys amodau ar drwyddedau cwmpo coed er mwyn atal achosion o gwmpo coed a fyddai'n groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol arall. Er enghraifft, gellid cynnwys amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid trwyddedau beidio â chwmpo coed mewn ardaloedd penodol er mwyn diogelu cynefin, neu i gwmpo coed ar adegau penodol o'r flwyddyn yn unig, neu i wneud gwaith cyfalaf i liniaru effaith cwmpo coed ar yr amgylchedd os yw CNC yn ystyried y byddai'n hwylus i wneud hynny er mwyn gwarchod fflora neu ffawna penodol, neu er mwyn osgoi niwed i'r amgylchedd.

### Adran 38 - Diwygio trwyddedau cwmpo coed drwy gytundeb

209. Mae adran 38(1) yn mewnosod is-adrannau newydd (3A) a (3B) yn adran 10 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 i alluogi CNC (fel yr awdurdod coedwigaeth priodol i Gymru o dan y Ddeddf honno) a'r person cyfrifol i gytuno (ar unrhyw adeg) i ddiwygio'r drwydded cwmpo coed.
210. Mae is-adran newydd (3B) yn ei gwneud yn glir mai'r person cyfrifol yw'r sawl sy'n gwneud cais am y drwydded os oes ganddo ystad neu fuddiant yn y tir o hyd a fyddai'n ei alluogi, â chydsyniad neu heb gydsyniad unrhyw berson arall, i gwmpo'r coed sy'n ddarostyngedig i'r drwydded. Os nad oes gan y ceisydd fuddiant o'r fath mwyach, y person cyfrifol yw person sydd ag ystad neu fuddiant o'r fath.
211. Bwriad y gallu i ddiwygio trwydded cwmpo coed drwy gytundeb cilyddol yw helpu i fynd i'r afael â newidiadau mewn amgylchiadau neu i adlewyrchu newidiadau o'r fath, er enghraifft pan fo ffiniau wedi newid neu pan fo angen ailblannu gyda rhywogaethau coed gwahanol, neu pan fo materion sensitif eraill a all ddod i'r amlwg ar ôl i'r drwydded gael ei rhoi, neu fel arall pan fo un o amodau'r drwydded cwmpo coed wedi ei dorri.

## **PART 4 - FORESTRY**

### **Section 36 – Overview of Part**

206. This section explains how this Part of the Act amends Part 2 of the Forestry Act 1967 (c. 10) in relation to Wales.

### **Section 37 - Conditions of tree felling licences**

207. Section 37 amends section 10 of the Forestry Act 1967 to enable the Natural Resources Body for Wales (“NRW”), as the “appropriate forestry authority” for Wales under the Act, to impose conditions on the grant of a tree felling licence if it appears to NRW that it would be expedient to do so for the purpose of (i) conserving or enhancing natural beauty, or (ii) conserving flora, fauna, geological or physiographical features, or natural habitats.

208. Section 10 of the Forestry Act 1967 currently enables NRW to impose conditions for certain purposes when granting tree felling licences. This amendment adds a further purpose for which NRW will be able to attach conditions to new tree felling licences. It will allow NRW to include conditions to felling licences to prevent felling that would contradict other environmental legislation. For example, to include conditions requiring licence holders not to fell trees in certain areas in order to retain habitat, or to fell trees only at certain times of year, or undertake capital works to mitigate the impact of felling on the environment if it appears to NRW that it would be expedient to do so in order to conserve certain flora or fauna or avoid environmental harm.

### **Section 38 - Amendment of tree felling licences by agreement**

209. Section 38(1) inserts new subsections (3A) and (3B) into section 10 of the Forestry Act 1967 to enable NRW (as the appropriate forestry authority for Wales under that Act) and the “person responsible” to agree (at any time) to amend a felling licence.

210. New subsection (3B) makes it clear that the “person responsible” is the applicant for the licence if the applicant still has an estate or interest in the land that would enable him/her, with or without consent of any other person, to fell the trees that are the subject of the licence. If the applicant no longer has such an interest, the “person responsible” is a person who has such an estate or interest.

211. The ability to amend a felling licence by mutual agreement is intended to help address or reflect changes in circumstances, for example where boundaries have changed or a need to replant with a different tree species or other sensitivities which may come to light after the licence has been granted, or alternatively where a breach of a condition of the felling licence has occurred.

212. Mae adran 38(2) yn mewnosod is-adran newydd 10A ar ôl adran 10 o Ddeddf Coedwigaeth 1967. Dim ond os yw'r coed sy'n ddarostyngedig i'r drwydded cwmpo coed yn ddarostyngedig i orchymyn cadw coed ("GCC"), a bod CNC a'r person cyfrifol yn cynnig diwygio trwydded cwmpo coed o dan adran 10(3A) y bydd adran newydd 10A yn gymwys.
213. O dan yr amgylchiadau hynny, rhaid i CNC gysylltu â'r awdurdod a wnaeth y GCC gan roi hysbysiad ysgrifenedig iddo am y diwygiad arfaethedig, oni fydd yr eithriad a nodir yn adran 10A(1)(b) yn gymwys. Effaith adran 10A(1)(b) yw, os bydd CNC o'r farn bod angen diwygio'r drwydded er mwyn ymateb i risg ar fin digwydd ddifrifol o niwed i harddwch naturiol, neu i fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffysiograffegol, neu gynefinoedd naturiol, nad yw'r gofynion a nodir yn adran 10A yn gymwys. Mae hyn yn galluogi gwneud diwygiadau sy'n angenrheidiol i atal risg ar fin digwydd ddifrifol o niwed amgylcheddol yn ddi-oad.
214. Mae adran 10A(3) yn rhoi cyfle i'r awdurdod GCC, unwaith y bydd wedi cael gwybod am ddiwygiad arfaethedig, i wrthwynebu'r diwygiad o fewn cyfnod rhagnodedig (a nodir mewn rheoliadau). O dan yr amgylchiadau hynny, rhaid i CNC atgyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru o fewn cyfnod rhagnodedig a nodir mewn rheoliadau. Os na fydd yr awdurdod GCC yn tynnu ei wrthwynebiad yn ôl, rhaid i CNC atgyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru. Yna, rhaid i Weinidogion Cymru roi cydsyniad i'r diwygiad neu wrthod rhoi cydsyniad, a rhaid iddynt ymgynghori â'r rheini a nodir yn adran 10A(6) cyn gwneud eu penderfyniad.

### **Adran 39 – Amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwyddedau cwmpo coed**

215. Mae adran 39 yn mewnosod tair adran newydd (adrannau 24C, 24D a 24E) yn Neddf Coedwigaeth 1967 i alluogi CNC, fel yr awdurdod coedwigaeth priodol i Gymru, i amrywio, diwygio, atal dros dro neu ddirymu trwydded cwmpo coed o dan amgylchiadau penodol (heb gytundeb).

#### *Adran 24C*

216. Gall CNC roi i'r person cyfrifol ("*the person responsible*") hysbysiad o dan adran 24C(3) os yw'n ystyried na chydymffurfiwyd, neu na chydymffurfir, ag amod yn y drwydded (heblaw am amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i wneud gwaith).
217. Gall hysbysiad a roddir o dan adran 24C(3) atal y drwydded dros dro (naill ai'n llawn neu'n rhannol), amrywio neu ddileu amod yn y drwydded, neu osod amod newydd o ran y drwydded. At hynny, pan fo'r amod a gafodd ei dorri, neu sy'n cael ei dorri, wedi ei osod at ddiben gwarchod neu wella harddwch naturiol, neu warchod fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffysiograffegol neu gynefinoedd naturiol, caiff hysbysiad a roddir o dan adran 24C(3) ddirymu'r drwydded.
218. Caiff hysbysiad a roddir o dan adran 24C(3) hefyd bennu camau y mae rhaid i'r person y mae'r hysbysiad wedi ei roi iddo eu cymryd (o fewn cyfnod a bennir yn yr hysbysiad).



212. Section 38(2) inserts a new section 10A after section 10 of the Forestry Act 1967. New section 10A only applies if the trees that are subject to the felling licence are subject to a tree preservation order (a “TPO”), and NRW and the person responsible are proposing to amend a felling licence under section 10(3A).
213. In those circumstances, NRW must give the authority by whom the TPO was made written notice of the proposed amendment, unless the exception set out in section 10A(1)(b) applies. The effect of section 10A(1)(b) is that, if NRW considers that the amendment to the licence is necessary to respond to an imminent and serious risk of harm to natural beauty, or to flora, fauna, geological or physiographical features, or natural habitats, the requirements set out in section 10A do not apply. This enables amendments that are necessary to prevent an imminent and serious risk of environmental harm to be made without delay.
214. Section 10A(3) gives the TPO authority, once it has been informed about a proposed amendment, an opportunity to object to the amendment within a prescribed period (to be set out in regulations). If the TPO authority do not withdraw their objection, NRW must refer the matter to the Welsh Ministers. The Welsh Ministers must then grant consent to the amendment or refuse to grant consent, and must consult those set out in 10A(6) before making their decision.

### **Section 39 - Varying, suspending or revoking tree felling licences**

215. Section 39 inserts three new sections (sections 24C, 24D and 24E) into the Forestry Act 1967 to enable NRW, as the appropriate forestry authority for Wales, to vary, amend, suspend or revoke a tree felling licence in certain circumstances (without agreement).

#### *Section 24C*

216. NRW can give “the person responsible” a notice under section 24C(3) if it considers that a condition of the licence (other than a condition that requires works to be carried out) has not been complied with, or is not being complied with.
217. A notice given under section 24C(3) is able to suspend the licence (either in full or partially), vary or remove a condition of the licence, or impose a new licence condition. In addition, where the condition that has been, or is being, breached has been imposed for the purpose of conserving or enhancing natural beauty, or for conserving flora, fauna, geological or physiographical features or natural habitats, a notice given under section 24C(3) may revoke the licence.
218. A notice given under section 24C(3) may also specify steps that must be taken (within a period specified in the notice) by the person to whom the notice has been given.

219. Os na chaiff camau y mae hysbysiad a roddir o dan adran 24C(3) yn ei gwneud yn ofynnol i'w cymryd eu cymryd o fewn yr amser a bennir yn yr hysbysiad, caiff CNC gymryd camau gorfodi yn unol ag adran 24C(9), (10) ac (11). Caiff CNC fynd ar y tir a chymryd y camau ei hun (o dan adran 24C(9)), neu caiff ddwyn achos yn erbyn y person sydd wedi methu â chymryd camau (yn unol ag adran 24C(10) ac (11)). Mae'n drosedd i berson beidio â chymryd y camau y mae hysbysiad a roddir o dan adran 24C(3) yn ei gwneud yn ofynnol i'w cymryd oni fydd ganddo esgus rhesymol. Trosedd ddiannod yn unig yw hon a gellir ei chosbi drwy ddirwy.
220. Pan fo hysbysiad a roddir o dan adran 24C(3) yn atal dros dro drwydded cwmpo coed, daw'r cyfnod dros dro hwnnw i ben pan fo'r cyfnod a nodir yn yr hysbysiad yn dirwyn i ben, oni fydd CNC yn rhoi hysbysiad pellach sy'n codi'r ataliad dros dro ar ddyddiad cynharach.
221. Diffinnir y person cyfrifol (*"the person responsible"*), at ddibenion adran 24C, yn adran 24C(13).

#### *Adran 24D*

222. Gall CNC roi hysbysiad o dan adran 24D(2) os rhoddwyd hysbysiad o dan adran 24C(3) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gymryd camau, ond cyn i'r camau hynny gael eu cymryd, nid oes gan y person y rhoddwyd yr hysbysiad iddo yr ystad neu'r buddiant perthnasol yn y tir mwyach.
223. Gallai'r sefyllfa hon godi, er enghraifft, os yw'r tir sy'n ddarostyngedig i hysbysiad adran 24C(3) yn newid dwylo cyn i gamau a nodir yn yr hysbysiad gael eu cymryd.
224. Yn yr amgylchiadau hynny, mae adran 24D yn darparu y gall CNC, fel yr awdurdod coedwigaeth priodol, gyflwyno hysbysiad i berson sydd â'r ystad neu'r buddiant perthnasol yn y tir, yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gymryd y camau a nodwyd yn flaenorol yn yr hysbysiad adran 24C(3) (o fewn cyfnod a bennir yn yr hysbysiad).
225. Mae adran 24D(5) yn darparu ei bod yn drosedd i berson fethu â chymryd y camau sy'n ofynnol gan hysbysiad adran 24D(2) oni fydd ganddo esgus rhesymol. Trosedd ddiannod yn unig yw hon a gellir ei chosbi drwy ddirwy. Fel gyda hysbysiaid adran 24C(3), os nad yw'r camau sy'n ofynnol gan hysbysiad adran 24D(2) wedi eu cymryd o fewn y cyfnod a bennir, caiff CNC fynd ar y tir i gymryd y camau ei hun (o dan adran 24D(4)).

#### *Adran 24E*

226. Gall CNC roi hysbysiad i'r person cyfrifol (*"the person responsible"*) o dan adran 24E(2) os yw'n ystyried bod cwmpo coed yn unol â thrwydded yn achosi, neu'n debygol o achosi, niwed sylweddol i (i) harddwch naturiol, neu (ii) fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffysiograffegol, neu gynefinoedd naturiol.
227. Mae'r amgylchiadau y gellir rhoi hysbysiad 24E(2) odanynt, felly, yn wahanol i'r amgylchiadau sy'n esgor ar roi hysbysiaid o dan adrannau 24C a 24D: nid yw pŵer CNC i roi hysbysiad o dan adran 24E(2) yn dibynnu ar dorri amod trwydded, a gall godi hyd yn oed os nad yw deiliad trwydded ar fai.

219. If the steps required by a notice given under section 24C(3) are not taken within the time specified in the notice, NRW may take enforcement action in accordance with section 24C(9), (10) and (11). NRW may enter onto the land and take the steps itself (under section 24C(9)), or it may bring proceedings against the person who has failed to take steps (in accordance with section 24C(10) and (11)). It is an offence for a person not to take the steps required by a notice given under section 24C(3) unless they have a reasonable excuse. This offence is summary only and is punishable by a fine.
220. Where a notice given under section 24C(3) suspends a felling licence, the suspension comes to an end when the period set out in the notice expires, unless NRW gives a further notice lifting the suspension on an earlier date.
221. “The person responsible”, for the purposes of section 24C, is defined in section 24C(13).

*Section 24D*

222. NRW can give a notice under section 24D(2) if a notice has been given under section 24C(3) requiring steps to be taken, but before those steps have been taken, the person to whom the notice was given ceases to have the relevant estate or interest in the land.
223. This situation could arise, for example, if the land that is the subject of a section 24C(3) notice changes hands before steps set out in the notice have been taken.
224. In those circumstances, section 24D provides that NRW, as the appropriate forestry authority, can serve a notice on a person who has the relevant estate or interest in the land, requiring that person to take the steps that were previously set out in the section 24C(3) notice (within a period specified in the notice).
225. Section 24D(5) provides that it is an offence for a person not to take the steps required by a section 24D(2) notice unless they have a reasonable excuse. This offence is summary only and is punishable by a fine. As with section 24C(3) notices, if the steps required by a section 24D(2) notice have not been taken within the specified period, NRW may enter onto the land to take the steps itself (under section 24D(4)).

*Section 24E*

226. NRW can give “the person responsible” a notice under section 24E(2) if it considers that tree felling in accordance with a licence is causing, or is likely to cause, significant harm to (i) natural beauty, or (ii) flora, fauna, geological or physiological features, or natural habitats.
227. The circumstances in which a section 24E(2) notice can be given are, therefore, different from the circumstances that give rise to notices being given under sections 24C and 24D: NRW’s power to give a notice under section 24E(2) is not dependent on a licence condition having been breached, and can arise even where a licence holder is not at fault.

228. O dan adran 24E(2), caiff CNC roi hysbysiad i'r person cyfrifol (*"the person responsible"*) i atal dros dro neu ddiwygio trwydded cwmpo coed neu, os yw CNC o'r farn na fyddai atal dros dro neu ddiwygio'r drwydded yn atal y niwed o dan sylw, i ddirymu'r drwydded.
229. Diffinnir y person cyfrifol (*"the person responsible"*), at ddibenion adran 24E, yn adran 24E(6).
230. Fel gyda hysbysiadau adran 24C(3), pan fo hysbysiad a roddir o dan adran 24E(2) yn atal dros dro drwydded cwmpo coed, caniateir i'r drwydded gael ei hatal dros dro yn llawn neu'n rhannol, a daw'r ataliad dros dro i ben pan fo'r cyfnod atal dros dro a nodir yn yr hysbysiad yn dirwyn i ben (oni fydd CNC yn rhoi hysbysiad pellach sy'n codi'r ataliad dros dro ar ddyddiad cynharach).
231. Os yw hysbysiad a roddir o dan adran 24C(3) neu 24E(2) yn gwneud darpariaeth i amrywio neu ddiwygio trwydded cwmpo coed, neu i atal dros dro neu ddirymu trwydded cwmpo coed, a bod person yn cwmpo coed yn groes i'r darpariaethau hynny, mae'r person hwnnw yn debygol o fod yn cwmpo coed heb awdurdod trwydded cwmpo coed.
232. O dan yr amgylchiadau hynny, gellir cymryd camau gorfodi o dan adran 17 o Ddeddf Coedwigaeth 1967. Mae adran 17 yn darparu ei bod yn drosedd i gwmpo coed heb awdurdod trwydded cwmpo coed, a bydd person sy'n euog o'r drosedd yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy diderfyn (gweler y sylwebaeth isod ar adran 42 o'r Ddeddf, sy'n diwygio adran 17 o Ddeddf Coedwigaeth 1967).

#### **Adran 40 - Gorchmynion Cadw Coed**

233. Mae adran 40 yn mewnosod adran newydd 24F (Gorchmynion Cadw Coed) yn Neddf Coedwigaeth 1967. Mae'n gymwys os yw CNC yn cynnig rhoi hysbysiad o dan adran 24C(3) neu 24E(2), ac y byddai'r hysbysiad yn effeithio ar goed sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw coed (*"GCC"*).
234. Mae'r adran yn ei gwneud yn ofynnol i CNC, fel yr awdurdod coedwigaeth priodol, i hysbysu'r awdurdod a wnaeth y GCC am y cynnig oni fodlonir y meini prawf brys. Bodlonir y meini prawf brys os yw CNC o'r farn bod angen rhoi'r hysbysiad adran 24C(3) neu adran 24E(2) er mwyn ymateb i risg ar fin digwydd ddifrifol o niwed i harddwch naturiol neu i fflora, ffawna, nodweddiad daearegol neu ffysiograffegol, neu gynefinoedd naturiol. Bwriedir i'r eithriad hwn alluogi CNC i fynd i'r afael ag unrhyw risg ar fin digwydd ddifrifol o niwed amgylcheddol yn ddi-oed.
235. Pan fydd yr awdurdod GCC wedi cael ei hysbysu am gynnig i roi hysbysiad o dan adran 24C(3) neu 24E(2), caiff wrthwynebu rhoi'r hysbysiad o fewn cyfnod rhagnodedig (a nodir mewn rheoliadau). Pan na fo'r awdurdod GCC yn tynnu ei wrthwynebiad yn ôl, rhaid i CNC atgyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r rheini a nodir yn 24F(7) cyn penderfynu a ddylid rhoi neu wrthod cydsyniad i roi'r hysbysiad.

228. Under section 24E(2), NRW may give a notice to “the person responsible” to suspend or amend a felling licence or, if NRW considers that suspending or amending the licence would not prevent the harm in question, to revoke the licence.
229. The person responsible, for the purposes of section 24E, is defined in section 24E(6).
230. As with section 24C(3) notices, where a notice given under section 24E(2) suspends a felling licence, the licence may be suspended in full or partially, and the suspension comes to an end when the suspension period set out in the notice expires (unless NRW gives a further notice lifting the suspension on an earlier date).
231. If a notice given under section 24C(3) or 24E(2) makes provision to vary or amend a felling licence, or to suspend or revoke a felling licence, and a person fells trees in contravention of those provisions, that person is likely to be felling trees without the authority of a felling licence.
232. In those circumstances, enforcement action can be taken via section 17 of the Forestry Act 1967 Act. Section 17 provides that it is an offence to fell without the authority of a felling licence, and a person found guilty of the offence will be liable on summary conviction to an unlimited fine (see commentary below on section 42 of the Act, which amends section 17 of the Forestry Act 1967).

#### **Section 40 – Tree Preservation Orders**

233. Section 40 inserts a new section 24F (Tree Preservation Orders) into the Forestry Act 1967. It applies if NRW proposes to give a notice under section 24C(3) or 24E(2), and the notice would affect trees that are the subject of a tree preservation order (a “TPO”).
234. The section requires NRW, as the appropriate forestry authority, to notify the authority who made the TPO of the proposal unless the emergency criteria are met. The emergency criteria are met if NRW considers that it is necessary to give the section 24C(3) or section 24E(2) notice in order to respond to an imminent and serious risk of harm to natural beauty or to flora, fauna, geological or physiographical features, or natural habitats. This exception is designed to enable NRW to address any imminent and serious risk of environmental harm without delay.
235. Once the TPO authority has been notified of a proposal to give a notice under section 24C(3) or 24E(2), it may object to the giving of the notice within a prescribed period (to be set out in regulations). Where the TPO authority do not withdraw its objection, NRW must refer the matter to the Welsh Ministers. The Welsh Ministers must consult those set out in 24F(7) before deciding whether to grant or refuse consent for the giving of the notice.

#### **Adran 41 – Apelau a Digollediad**

236. Mae adran 41 yn mewnosod saith adran newydd yn Neddf Coedwigaeth 1967 sy'n nodi hawliau o ran cyflwyno apêl a hawliau o ran hawlio digollediad yn sgil rhoi hysbysiadau o dan adrannau 24C(3), 24D(2) a 24E(2).
237. Mae adrannau newydd 26A a 26B yn nodi pwy gaiff gyflwyno apêl yn erbyn hysbysiad a roddir o dan adrannau 24C(3), 24D(2) a 24E(2), ac yn pennu ar ba seiliau y caniateir cyflwyno'r apelau hynny. Mae adran 26A(2) yn nodi ar ba seiliau y caniateir cyflwyno apêl yn erbyn hysbysiad adran 24C(3), ac mae adran 26A(3) yn nodi'r seiliau y caniateir cyflwyno apêl oddi tanynt yn erbyn hysbysiad adran 24D(2). Mae adran 24B(2) yn nodi'r seiliau y caniateir cyflwyno apêl oddi tanynt yn erbyn hysbysiad adran 24E(2).
238. Rhaid cyflwyno apêl o dan adran 26A neu 26B drwy gyflwyno hysbysiad i Weinidogion Cymru yn gofyn i'r mater gael ei atgyfeirio i Bwyllgor a benodir yn unol ag adran 27 o Ddeddf Coedwigaeth 1967.
239. Mae adran newydd 26C yn gwneud darpariaethau pellach mewn perthynas ag apelau. Ymysg pethau eraill, mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau y modd rhagnodedig a'r cyfnod rhagnodedig ar gyfer cyflwyno apelau yn erbyn hysbysiadau a roddir o dan adrannau 24C(3), 24D(2) a 24E(2).
240. Fel rheol gyffredinol, nid yw hysbysiadau a roddir o dan adrannau 24C(3), 24D(2) a 24E(2) yn cymryd effaith hyd nes bod cyfle wedi ei roi i berson i gyflwyno apêl neu (mewn amgylchiadau pan fo apêl wedi ei chyflwyno) fod yr apêl wedi cael ei phenderfynu. Fodd bynnag, gall hysbysiad a roddir o dan yr adrannau hynny gymryd effaith ar unwaith i'r graddau (i) y mae'r hysbysiad yn atal dros dro drwydded cwmpo coed, neu (ii) y mae'r hysbysiad yn diwygio neu'n dirymu trwydded cwmpo coed, ac mae CNC yn ystyried bod y cam yn angenrheidiol er mwyn ymateb i risg ar fin digwydd ddifrifol o niwed i'r nodweddion amgylcheddol a ddisgrifir yn adran 26C(3)(a).
241. Mae adran 41 hefyd yn mewnosod adrannau newydd 26D, 26E a 26F yn Neddf Coedwigaeth 1967 i ddarparu hawlogaeth i ddigollediad o dan amgylchiadau penodol ar ôl cael hysbysiad a roddir o dan adrannau 24C(3), 24D(2) neu 24E(2). Mae'r adrannau newydd hyn i'w darllen ochr yn ochr â'r darpariaethau yn adran newydd 26G.
242. Mae adrannau 26D, 26E a 26F yn pennu pwy all hawlio digollediad pan fo hysbysiad wedi ei roi o dan adrannau 24C(3), 24D(2) neu 24E(2).
243. Mae adran 26D yn darparu hawlogaeth i ddigollediad pan fo hysbysiad wedi ei roi o dan adran 24C(3). Mae hawlogaeth i ddigollediad yn codi pan fo'r hysbysiad wedi cael ei ganslo gan Weinidogion Cymru yn dilyn apêl neu (os yw hysbysiad yn un sy'n atal dros dro drwydded), pan fo Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo CNC i ddod â'r cyfnod atal dros dro i ben.

## **Section 41 – Appeals and Compensation**

236. Section 41 inserts seven new sections into the Forestry Act 1967 setting out rights to bring an appeal and rights to claim compensation following the giving of notices under sections 24C(3), 24D(2) and 24E(2).
237. New sections 26A and 26B set out who may bring an appeal against a notice given under section 24C(3), 24D(2) and 24E(2), and specify the grounds on which those appeals may be brought. Section 26A(2) sets out the grounds under which an appeal may be brought against a section 24C(3) notice, and section 26A(3) sets out the ground under which an appeal may be brought against a section 24D(2) notice. Section 26B(2) sets out the grounds under which an appeal may be brought against a section 24E(2) notice.
238. An appeal under section 26A or 26B must be brought by serving a notice on the Welsh Ministers requesting the matter be referred to a Committee appointed in accordance with section 27 of the Forestry Act 1967.
239. New section 26C makes further provisions in relation to appeals. Amongst other things, it allows the Welsh Ministers to set out in regulations the prescribed manner and prescribed period for bringing appeals against notices given under section 24C(3), 24D(2) and 24E(2).
240. As a general rule, notices given under sections 24C(3), 24D(2) and 24E(2) do not take effect until after a person has been given an opportunity to bring an appeal or (in circumstances where an appeal has been brought) until the appeal has been concluded. However, a notice given under those sections can take effect immediately to the extent that (i) the notice suspends a felling licence, or (ii) the notice amends or revokes a felling licence, and NRW considers that the action is necessary in order to respond to an imminent and serious risk of harm to the environmental features described in section 26C(3)(a).
241. Section 41 also inserts new sections 26D, 26E and 26F into the Forestry Act 1967 to provide an entitlement to compensation in certain circumstances following the receipt of a notice given under section 24C(3), 24D(2) or 24E(2). These new sections are to be read alongside the provisions in new section 26G.
242. Sections 26D, 26E and 26F specify who can make a claim for compensation where a notice has been given under section 24C(3), 24D(2) or 24E(2).
243. Section 26D provides an entitlement to compensation where a notice has been given under section 24C(3). An entitlement to compensation arises where the notice has either been cancelled by the Welsh Ministers following an appeal or (if a notice is one that suspends a licence), where the Welsh Ministers have directed NRW to end the suspension.

244. Os caiff hysbysiad adran 24C(3) ei ganslo yn dilyn apêl, telir digollediad am unrhyw dreuliau yr eir iddynt yn rhesymol mewn cysylltiad â rhoi'r hysbysiad, ac am unrhyw ddibrisiant yng ngwerth y coed sydd i'w briodoli i ddirywiad yn ansawdd y pren sy'n codi yn sgil rhoi'r hysbysiad.
245. Os yw Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo CNC i ddod â chyfnod atal dros dro i ben, telir digollediad am unrhyw dreuliau yr eir iddynt yn rhesymol mewn cysylltiad â'r cyfnod atal dros dro, ac am unrhyw ddibrisiant yng ngwerth y coed sydd i'w briodoli i ddirywiad yn ansawdd y pren sy'n codi yn sgil y cyfnod atal dros dro.
246. Mae adran 26E yn darparu hawlogaeth i ddigollediad pan fo hysbysiad wedi ei roi o dan adran 24D(2). Dim ond ei gwneud yn ofynnol i berson gymryd camau y gall hysbysiaidau o dan adran 24D(2) ei wneud (ac ni allant amrywio, diwygio, atal dros dro na dirymu trwyddedau), felly mae hawliau digolledu o dan adran 26E yn fwy cyfyngedig. Mae'r hawlogaeth yn codi os yw hysbysiad adran 24D(2) wedi ei ganslo gan Weinidogion Cymru yn dilyn apêl, a thelir swm digolledu am unrhyw dreuliau yr eir iddynt yn rhesymol mewn cysylltiad â rhoi'r hysbysiad.
247. Mae adran 26F yn darparu hawlogaeth i ddigollediad pan fo hysbysiad wedi ei roi o dan adran 24E(2). Gall hysbysiaidau a roddir o dan adran 24E(2) ddiwygio, atal dros dro neu ddirymu trwyddedau pan na fu unrhyw achos o dorri amod trwydded (os yw'r gofynion a nodir yn adran 24E wedi eu bodloni), felly mae'r hawliau digolledu o dan adran 26F yn ehangach.
248. Mae hawl awtomatig i ddigollediad am unrhyw ddibrisiant yng ngwerth y coed sydd i'w briodoli i ddirywiad yn ansawdd y pren sy'n codi yn sgil rhoi hysbysiad o dan adran 26E(2), ni wnaeth p'un a gyflwynwyd apêl ai peidio. Mae hyn yn debyg i'r hawliau digolledu sy'n codi o dan adran 10 ac 11 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 pan wrthodir cais am drwydded cwmpo coed.
249. Mae hawlogaeth i ddigollediad hefyd yn codi o dan adran 26F pan fo hysbysiad a roddir o dan adran 24E(2) wedi ei ganslo gan Weinidogion Cymru yn dilyn apêl neu (os yw hysbysiad yn un sy'n atal dros dro drwydded), pan fo Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo CNC i ddod â'r cyfnod atal dros dro i ben.
250. Os caiff hysbysiad adran 24E(2) ei ganslo yn dilyn apêl, telir digollediad am unrhyw dreuliau yr eir iddynt yn rhesymol mewn cysylltiad â rhoi'r hysbysiad.
251. Os yw Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo CNC i ddod â chyfnod atal dros dro a wnaed gan hysbysiad adran 24E(2) i ben, telir digollediad am unrhyw dreuliau yr eir iddynt yn rhesymol mewn cysylltiad â'r cyfnod atal dros dro.
252. Mae adran newydd 26G yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â hawliadau digolledu. Ymysg pethau eraill, mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau y modd rhagnodedig a'r cyfnod rhagnodedig ar gyfer hawlio digollediad ac mae'n darparu rhagor o fanylion am hawlio digollediad am ddirywiad yn ansawdd pren.



244. If a section 24C(3) notice is cancelled following an appeal, compensation is payable for any expenses reasonably incurred in connection with the giving of the notice, and for any depreciation in the value of the trees that is attributable to deterioration in the quality of the timber arising as a result of the giving of the notice.
245. If the Welsh Ministers have directed NRW to end a suspension, compensation is payable for any expenses reasonably incurred in connection with the suspension, and for any depreciation in the value of the trees that is attributable to deterioration in the quality of the timber arising as a result of the suspension.
246. Section 26E provides an entitlement to compensation where a notice has been given under section 24D(2). Notices under section 24D(2) are only able to require a person to take steps (and are not able to vary, amend, suspend or revoke licences), so compensation rights under section 26E are more limited. The entitlement arises if a section 24D(2) notice has been cancelled by the Welsh Ministers following an appeal, and compensation is payable for any expenses reasonably incurred in connection with the giving of the notice.
247. Section 26F provides an entitlement to compensation where a notice has been given under section 24E(2). Notices given under section 24E(2) are able to amend, suspend or revoke licences where there has been no breach of a licence condition (if the requirements set out in section 24E have been met), so the compensation rights under section 26F are broader.
248. There is an automatic right to compensation for any depreciation in the value of the trees that is attributable to deterioration in the quality of the timber arising as a result of the giving of a notice under section 26E(2), regardless of whether an appeal has been brought. This is similar to the compensation rights that arise under section 10 and 11 of the Forestry 1967 Act where an application for a felling licence is refused.
249. An entitlement to compensation also arises under section 26F where a notice given under section 24E(2) has either been cancelled by the Welsh Ministers following an appeal or (if a notice is one that suspends a licence), where the Welsh Ministers have directed NRW to end the suspension.
250. If a section 24E(2) notice is cancelled following an appeal, compensation is payable for any expenses reasonably incurred in connection with the giving of the notice.
251. If the Welsh Ministers have directed NRW to end a suspension made by a section 24E(2) notice, compensation is payable for any expenses reasonably incurred in connection with the suspension.
252. New Section 26G makes further provision in relation to compensation claims. Amongst other things, it allows the Welsh Ministers to set out in regulations the prescribed manner and prescribed period for claiming compensation and provides further details about claiming compensation for deterioration in the quality of timber.

#### **Adran 42 – Cosb am gwmpo coed heb drwydded**

253. Mae adran 42 yn diwygio adran 17 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 i ddarparu, mewn cysylltiad â thir yng Nghymru, mai'r gosb am gwmpo coeden heb awdurdod trwydded cwmpo coed yw dirwy ddiderfyn. Caiff coed eu cwmpo heb awdurdod trwydded cwmpo coed os nad oes trwydded yn ei lle (er enghraifft am nad yw trwydded wedi ei rhoi, neu am fod trwydded wedi ei hatal dros dro neu ei dirymu drwy hysbysiad a roddir o dan adran 24C(3) neu 24E(2)), neu os caiff coed eu cwmpo yn groes i drwydded cwmpo coed (gan gynnwys yn groes i delerau neu amodau trwydded sydd wedi ei hamrywio, ei diwygio neu ei mewnosod gan hysbysiad a roddir o dan adran 24C(3) neu 24E(2)).

#### **Adran 43 – Cyflwyno dogfennau**

254. Mae adran 43 yn mewnosod is-adran newydd (6) yn adran 30 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 i ddarparu bod unrhyw gyfeiriadau yn Rhan 2 o'r Ddeddf honno at roi hysbysïadau neu ddogfennau i'w trin fel pe baent yn gyfeiriadau at gyflwyno hysbysiad neu ddogfen. Mae hyn yn sicrhau bod y meini prawf yn adran 30 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 (ynghylch pryd y tybir bod hysbysïadau neu ddogfennau wedi eu cyflwyno) yn gymwys mewn ffordd gyson i bob hysbysiad a dogfen a roddir gan CNC o dan Ran 2 o Ddeddf Coedwigaeth 1967.

#### **Adran 44 – Diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Coedwigaeth 1967**

255. Mae adran 44 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967. Mae angen y diwygiadau hyn o ganlyniad i newidiadau a wneir i'r Ddeddf honno gan adrannau 36 i 43.

### **RHAN 5 - BYWYD GWYLLT**

#### **Adran 45 – Trosolwg o'r Rhan**

256. Mae adran 45 yn nodi'r dibenion y mae'r Rhan hon o'r Ddeddf yn diwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (p. 69) ar eu cyfer.

#### **Adran 46 – Gwahardd defnyddio maglau a thrapiau glud**

257. Mae adran 46 yn diwygio adran 11(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i'w gwneud yn drosedd i ddefnyddio dyfeisiau penodol er mwyn lladd neu gymryd anifeiliaid penodol, neu i ddefnyddio'r dyfeisiau hynny pan fo'n debygol y byddant yn dal anifeiliaid penodol neu'n achosi anaf iddynt.

258. Mae'r diwygiad i adran 11(1) o Ddeddf 1981 yn ei gwneud yn drosedd:

- i osod magl neu atalydd cebl arall yn ei lle neu yn ei le yng Nghymru, os yw'r fagl neu'r atalydd o fath sy'n debygol o achosi anaf i unrhyw anifail gwyllt sy'n dod i gysylltiad â hi neu ag ef, ac y caiff ei gosod neu ei osod mewn modd o'r fath;
- i ddefnyddio magl neu atalydd cebl arall yng Nghymru at ddiben lladd neu gymryd unrhyw anifail gwyllt;
- i osod trap glud yn ei le yng Nghymru, os yw'r trap o fath sy'n debygol o ddal unrhyw anifail asgwrn cefn (an-ddynol) sy'n dod i gysylltiad ag ef, ac y caiff ei osod mewn modd o'r fath;
- i ddefnyddio trap glud yng Nghymru at ddiben lladd neu gymryd unrhyw anifail asgwrn cefn (an-ddynol).

### **Section 42 - Penalty for felling without licence**

253. Section 42 amends section 17 of the Forestry Act 1967 to provide that, in respect of land in Wales, the penalty for felling a tree without the authority of a felling licence is an unlimited fine. Trees are felled without the authority of a felling licence if there is no licence in place (for instance because a licence has not been granted, or because a licence has been suspended or revoked by a notice given under section 24C(3) or 24E(2)), or if trees are felled in contravention of a felling licence (including in contravention of terms or conditions of a licence that have been varied, amended or inserted by a notice given under section 24C(3) or 24E(2)).

### **Section 43 – Service of documents**

254. Section 43 inserts a new subsection (6) into section 30 of the Forestry Act 1967 to provide that any references in Part 2 of that Act to the giving of a notice or document by NRW are to be treated as if they were references to the serving of a notice or document. This ensures that the criteria in section 30 of the Forestry Act 1967 (about when notices or documents are deemed to have been served) apply consistently to all notices and documents given by NRW under Part 2 of the Forestry Act 1967.

### **Section 44 - Consequential amendments to the Forestry Act 1967**

255. Section 44 makes a series of amendments to the Forestry Act 1967. These amendments are needed as a result of the changes made to that Act by sections 36 to 43.

## **PART 5 - WILDLIFE**

### **Section 45 – Overview of Part**

256. Section 45 sets out the purposes for which this Part of the Act amends the Wildlife and Countryside Act 1981 (c.69).

### **Section 46 - Prohibition on use of snares and glue traps**

257. Section 46 amends section 11(1) of the Wildlife and Countryside Act 1981 so as to make it an offence to use certain devices in order to kill or take certain animals, or to use those devices where it is likely that they will catch certain animals or cause injury to them.

258. The amendment to section 11(1) of the 1981 Act makes it an offence:

- to set a snare or other cable restraint in position in Wales, if the snare or restraint is of a type, and is placed, so as to be likely to cause injury to any wild animal that comes into contact with it;
- to use a snare or other cable restraint in Wales for the purpose of killing or taking any wild animal;
- to set a glue trap in position in Wales, if the trap is of a type, and is placed, so as to be likely to catch any (non-human) vertebrate animal that comes into contact with it;
- to use a glue trap in Wales for the purpose of killing any or taking any (non-human) vertebrate animal.

### **Adran 47 – Addasu gwaharddiadau ar ddefnyddio dulliau eraill i ladd neu gymryd anifeiliaid gwyllt**

259. Mae adran 47 yn diwygio adran 11(2) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i addasu'r gwaharddiadau ar osod yn ei lle neu yn ei lle unrhyw drap neu fagl, neu unrhyw ddyfais drydanol i ladd neu stynio, neu unrhyw sylwedd gwenwynig, sylwedd a wenwynwyd neu sylwedd llesgáu. Effaith yr addasiadau yw y bydd y gwaharddiadau yn gymwys pan fo'r defnydd o'r eitemau hynny yn "debygol" o achosi anaf i anifail gwyllt o'r fath a bennir yn y darpariaethau hynny (yn hytrach na phan fo'r defnydd yn bwriadu achosi ("*calculated to cause*") anaf i anifail gwyllt o'r math hwnnw).

### **Adran 48 – Diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981**

260. Mae adran 48 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae'r diwygiadau hyn yn gysylltiedig â'r newidiadau a wneir i'r Ddeddf honno gan adrannau 46 a 47.

261. Er enghraifft, cafodd y gwaharddiad a osodir gan adran 11(1)(be) o Ddeddf 1981 (a fewnosodir gan adran 48(2)(c)) ei osod yn flaenorol, o ran Cymru ac o ran Lloegr, gan adran 11(1)(b) o Ddeddf 1981. Mae adran 48(2)(b) yn diwygio adran 11(1)(b) o Ddeddf 1981 fel nad yw'n gymwys o ran Cymru mwyach, ac mae adran 48(2)(c) yn mewnosod adran 11(1)(be) newydd sy'n gymwys o ran Cymru. Gwnaed hyn er mwyn gallu rhoi'r gwaharddiadau sy'n gymwys o ran Lloegr mewn grŵp gyda'i gilydd, wedi ei ddilyn gan y gwaharddiadau sy'n gymwys o ran Cymru (gan gynnwys y rheini a fewnosodir gan adran 46).

## **RHAN 6 – CYFFREDINOL**

### **Adran 49 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, drosiannol etc.**

262. Mae adran 49 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed y maent yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol at ddiben unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth o'r fath, neu ar gyfer rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth o'r fath. Caiff rheoliadau o'r fath addasu unrhyw ddeddfiad (fel y'i diffinnir yn Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019), gan gynnwys y darpariaethau yn y Ddeddf hon.

### **Adran 50 – Rheoliadau o dan y Ddeddf hon**

263. Mae adran 50 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon, ac yn nodi gweithdrefn Senedd Cymru sy'n gymwys i'r rheoliadau hynny.

264. Mae is-adran (3) yn darparu bod pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

265. Mae is-adran (4) yn darparu bod pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed.

### **Section 47 - Modification of prohibitions on use of other methods to kill or take wild animals**

259. Section 47 amends section 11(2) of the Wildlife and Countryside Act 1981 so as to modify the prohibitions on setting in position any trap or snare, or any electrical device for killing or stunning, or any poisonous, poisoned or stupefying substance. The effect of the modifications is that the prohibitions will apply where the use of those things is “likely” to cause injury to a wild animal of the type specified in those provisions (rather than where the use is “calculated to cause” injury to a wild animal of that type).

### **Section 48 – Consequential amendments to the Wildlife and Countryside Act 1981**

260. Section 48 makes a series of amendments to the Wildlife and Countryside Act 1981. These amendments are connected to the changes made to that Act by sections 46 and 47.

261. For example, the prohibition imposed by section 11(1) (be) of the 1981 Act (inserted by section 48(2)(c)) was previously imposed, both in relation to England and in relation to Wales, by section 11(1)(b) of the 1981 Act. Section 48(2)(b) amends section 11(1)(b) of the 1981 Act so that it no longer applies in relation to Wales, and section 48(2)(c) inserts a new section 11(1) (be) that applies in relation to Wales. This has been done in order to enable the prohibitions that apply in relation to England to be grouped together, followed by the prohibitions that apply in relation to Wales (including those inserted by section 46).

## **PART 6 - GENERAL**

### **Section 49 – Power to make consequential, transitional etc. provision**

262. Section 49 provides that the Welsh Ministers may, by regulations, make such supplemental, incidental, consequential, transitional, transitory or saving provision as they think necessary or appropriate for the purpose of, in consequence of, or for giving full effect to any provision of the Act. Such regulations may modify any enactment (as defined in Schedule 1 to the Legislation (Wales) Act 2019), including the provisions contained in this Act.

### **Section 50 – Regulations under this Act**

263. Section 50 makes general provision about regulations made under this Act and sets out the Senedd Cymru procedure applicable to those regulations.

264. Subsection (3) provides that a power to make regulations under the Act includes power to modify retained direct EU legislation.

265. Subsection (4) provides that a power to make regulations under the Act includes power to make supplemental, incidental, consequential, transitional, transitory, or saving provision.

266. Mae is-adran (7) yn nodi'r darpariaethau o fewn y Ddeddf y mae'r weithdrefn gadarnhaol yn gymwys iddynt, hy na chaniateir gwneud rheoliadau oddi tanynt oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad. Mae is-adran (8) yn darparu bod y weithdrefn gadarnhaol hefyd yn gymwys pan fo rheoliadau yn addasu unrhyw ddarpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol.

### **Adran 51 – Ystyr “amaethyddiaeth” a chyfeiriadau perthnasol**

267. Mae ystyr “amaethyddiaeth” yn ganolog i ddarpariaethau penodol yn y Ddeddf, yn benodol y ddyletswydd RhTG (adran 2) a'r pŵer i ddarparu cymorth (adran 8). Mae adran 51 yn diffinio “amaethyddiaeth” at ddibenion y Ddeddf. Mae'r diffiniad yn eang ei gwmpas. Y bwriad yw adlewyrchu'r ystod eang o weithgareddau ffermio sy'n cael eu cynnal yng Nghymru ar hyn o bryd, a chynnwys gweithgareddau yr ystyrir eu bod yn weithgareddau ffermio traddodiadol, e.e. tyfu cnydau ar gyfer bwyd, yn ogystal â gweithgareddau ffermio mwy modern, e.e. amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir, sy'n cynnwys datblygiadau mwy diweddar megis ffermio fertigol.
268. Mae “da byw” yn rhan o'r diffiniad o “amaethyddiaeth”, ac mae is-adran (2) yn darparu diffiniad o ystyr y term hwn, er eglurder. Yn yr un modd, mae'r diffiniad o “amaethyddiaeth” yn cynnwys cyfeiriad at “amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir”, sy'n arfer gymharol newydd sy'n esblygu. Mae is-adran (2) yn darparu diffiniad o'r term hwn.
269. Mae is-adran (3) yn egluro bod termau penodol i'w dehongli yn unol â'r diffiniad o “amaethyddiaeth”, gan gynnwys “busnesau amaethyddol”.

### **Adran 52 – Ystyr “gweithgaredd ategol”**

270. Mae adran 52 yn diffinio “gweithgaredd ategol” at ddibenion y Ddeddf.
271. Yn y diffiniad, mae paragraff (a) yn pennu gweithgareddau penodol a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth (fel y'i diffinnir yn adran 51), ac mae paragraff (b) yn cyfeirio at weithgareddau eraill a restrir, nad oes angen eu cynnal ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, ond y mae rhaid iddynt fod yn gysylltiedig â chynhyrchion sy'n deillio o amaethyddiaeth.
272. Bwriad y diffiniad yw nodi'r gweithgareddau a gynhelir gan y sector amaethyddol, yn ogystal â'i weithgareddau craidd, i gefnogi busnes a chanlyniadau amgylcheddol y sector.

### **Adran 53 – Pŵer i ddiwygio adrannau 51 a 52**

273. Mae adran 50 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r diffiniadau o “amaethyddiaeth” a “gweithgaredd ategol” drwy reoliadau.
274. Mae is-adrannau (2) i (7) yn nodi'r weithdrefn y mae rhaid ei dilyn wrth arfer y pŵer i ddiwygio adrannau 51 a 52. Rhaid ymgynghori ar y weithdrefn hon cyn i'r rheoliadau gael eu gwneud, a gosod datganiad gerbron y Senedd.

266. Subsection (7) sets out the provisions of the Act to which the affirmative procedure applies, ie under which regulations may not be made unless a draft of the instrument containing them has been laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru. Subsection (8) provides that the affirmative procedure is also applicable where regulations modify any provision of primary legislation.

### **Section 51 – Meaning of “agriculture” and related references**

267. The meaning of “agriculture” is central to certain provisions of the Act, particularly the SLM duty (section 2) and the power of support (section 8). Section 51 defines “agriculture” for the purposes of the Act. The definition is wide in scope. This is intended to reflect the broad range of farming activities currently undertaken in Wales, and to capture activities that are commonly considered to be traditional farming activities, e.g. the growing of crops for food, as well as more modern farming activities, e.g. controlled environment agriculture which captures more recent developments such as vertical farming.
268. “Livestock” forms a component part of the definition of “agriculture”, and for clarity, subsection (2) provides a definition of what is meant by this term. Similarly, the definition of “agriculture” includes a reference to “controlled environment agriculture”, which is a relatively new, evolving practice. Subsection (2) provides a definition of this term.
269. Subsection (3) clarifies that certain terms are to be construed in accordance with the definition of “agriculture”, including “agricultural businesses”.

### **Section 52 – Meaning of “ancillary activity”**

270. Section 52 defines “ancillary activity” for the purposes of the Act.
271. In the definition, paragraph (a) specifies certain activities carried out on land used for agriculture (as defined in section 51), while paragraph (b) refers to other listed activities, which need not take place on land used for agriculture, but which must relate to products derived from agriculture.
272. The definition is intended to recognise the activities the agricultural sector undertakes, alongside its core actions, in support of its business and environmental outcomes.

### **Section 53 - Power to amend sections 51 and 52**

273. Section 50 confers power on the Welsh Ministers to amend the definitions of “agriculture” and “ancillary activity” by regulations.
274. Subsections (2) to (7) detail the procedure that must be followed when exercising the power to amend sections 51 and 52. This procedure requires consultation before the regulations are made, and a statement to be laid before the Senedd.

275. Bwriad rhoi'r pŵer hwn yw sicrhau bod modd i'r Ddeddf addasu, er enghraifft, i unrhyw newidiadau mewn arferion amaethyddol neu ffermio yn y dyfodol a allai ddeillio o ddatblygiadau ym maes rheoli tir neu ddatblygiadau technolegol yn y dyfodol.

#### **Adran 54 - Dehongli arall**

276. Mae adran 54 yn diffinio geiriau a thermau eraill a ddefnyddir yn y Ddeddf.

#### **Adran 55 - Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau etc.**

277. Mae is-adran (1) yn rhoi effaith i Atodlen 2 sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol, sy'n ymwneud â Rhannau 1 a 3, i ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol.

278. Mae is-adran (2) yn rhoi effaith i Atodlen 3, sy'n diwygio'r Rheoliad CMO.

#### **Adran 56 - Dod i rym**

279. Mae adran 56 yn dwyn darpariaethau'r Ddeddf i rym.

280. Mae is-adran (1) yn dwyn y darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym drannoeth diwrnod y Cydsyniad Brenhinol: Rhan 4 (ond dim ond at ddiben gwneud rheoliadau o dan adran 32 o Ddeddf Coedwigaeth 1967) a Rhan 6 (ac eithrio adran 55, ac Atodlenni 2 a 3).

281. Mae is-adran (2) yn dwyn y darpariaethau a ganlyn i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â diwrnod y Cydsyniad Brenhinol: Rhan 1 (RhTG); Pennod 1 o Ran 2 (pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth); Pennod 2 o Ran 2 (pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ariannol a chymorth arall), a Rhan 5 (bywyd gwyllt).

282. Mae is-adran (3) yn dwyn darpariaethau penodol o Atodlen 2 i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â diwrnod y Cydsyniad Brenhinol, yn ogystal ag adran 55, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau hynny. (Yn achos y darpariaethau a bennir ym mharagraffau (a) a (b), ni chânt eu cychwyn ac eithrio at ddibenion a bennir.) Mae hyn er mwyn sicrhau, i'r graddau y mae diwygiadau canlyniadol a diddymiadau yn Atodlen 2 yn ymwneud â'r darpariaethau yn y Ddeddf sy'n cael eu cychwyn gan is-adran (2), fod y diwygiadau a'r diddymiadau hynny eu hunain yn dod i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis.

283. Mae is-adran (4) yn darparu bod pob darpariaeth arall yn y Ddeddf yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir mewn gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

284. Mae is-adran (5) yn caniatáu i orchymyn o dan is-adran (4) bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol, a gwneud darpariaethau darfodol, darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed.

#### **Adran 57 - Enw byr**

285. Mae'r adran hon yn rhoi enw byr y Ddeddf, sef "Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023".



275. The availability of this power is intended to ensure that the Act is able to adapt to, for instance, any future changes in agricultural or farming practices that might result from land management or technological advances in the future.

#### **Section 54 - Other interpretation**

276. Section 54 defines further words and terms used in the Act.

#### **Section 55 - Consequential amendments and repeals etc.**

277. Subsection (1) gives effect to Schedule 2, which makes minor and consequential amendments, relating to Parts 1 to 3, to existing primary legislation.

278. Subsection (2) gives effect to Schedule 3, which makes amendments to the CMO Regulation.

#### **Section 56 - Coming into force**

279. Section 56 brings the provisions of the Act into force.

280. Subsection (1) brings the following provisions of the Act into force on the day after the day of Royal Assent: Part 4 (but only for the purpose of making regulations under section 32 of the Forestry Act 1967) and Part 6 (except section 55, and Schedules 2 and 3).

281. Subsection (2) brings the following provisions into force at the end of the period of two months beginning with the day of Royal Assent: Part 1 (SLM); Chapter 1 of Part 2 (Welsh Ministers' power to provide support); Chapter 2 of Part 2 (power to modify legislation relating to financial and other support);, and Part 5 (wildlife)

282. Subsection (3) brings certain provisions of Schedule 2 into force at the end of the period of two months beginning with the day of Royal Assent, and section 55 to the extent that it relates to those provisions. (In the case of the provisions specified in paragraphs (a) and (b), they are commenced only for specified purposes.) This is to ensure that, to the extent that consequential amendments and repeals in Schedule 2 relate to the provisions of the Act commenced by subsection (2), those amendments and repeals themselves come into force at the end of the two-month period.

283. Subsection (4) provides that all other provisions of the Act come into force on a day appointed in an order made by the Welsh Ministers.

284. Subsection (5) allows an order under subsection (4) to appoint different days for different purposes and to make transitory, transitional and saving provision.

#### **Section 57 - Short title**

285. This section gives the short title of the Act as the "Agriculture (Wales) Act 2023".

## **ATODLEN 1 - CYNHYRCHION AMAETHYDDOL SY'N BERTHNASOL I DDARPARIAETHAU SAFONAU MARCHNATA**

286. Cyflwynir Atodlen 1 gan adran 34. Mae'n cynnwys y rhestr o gynhyrchion amaethyddol y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn cysylltiad â hwy o dan adran 34.
287. Mae paragraffau 1 i 9 yn gweithredu drwy gyfeirio at y Rheoliad CMO (a ddiffinnir yn adran 54); mae paragraff 10 yn gweithredu drwy gyfeirio at y Rheoliad Gwin a Bersawrwyd fel y'i diffinnir ym mharagraff 11.

## **ATODLEN 2 - MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL ETC. SY'N YMWNEUD Â RHANNAU 1 I 3**

288. Cyflwynir Atodlen 2 gan adran 55.

### **Rhan 1: Diwygiadau, Diddymiadau ac Arbedion sy'n ymwneud â Deddf Amaethyddiaeth 2020**

289. Mae paragraff 1 yn gwneud y diwygiadau i Ddeddf 2020.
290. Mae paragraff 1(2) yn diddymu'r adran o Ddeddf 2020 sy'n cyflwyno Atodlen 5 i'r Ddeddf honno. Mae Atodlen 5 i Ddeddf 2020 yn gwneud darpariaeth o ran Cymru yn unig, ac mae wedi ei diddymu gan y Ddeddf hon (gweler paragraff 1(9)).
291. Mae paragraff 1(3) yn diddymu'r adran o Ddeddf 2020 sy'n darparu bod darpariaethau penodol yn y Ddeddf o ran Cymru yn dod i ben ar ddiwedd 2024, am fod y darpariaethau dan sylw wedi eu diddymu gan y Ddeddf hon.
292. Mae paragraff 1(4) yn hepgor paragraffau penodol o adran 52 o Ddeddf 2020, sy'n cyflwyno Atodlen 7 i'r Ddeddf honno. Mae Atodlen 7 i Ddeddf 2020 yn diwygio'r Rheoliad CMO (a ddiffinnir yn adran 54) o ganlyniad i ddarpariaethau penodol yn y Ddeddf honno; gan fod rhai o'r rheini yn cael eu diddymu gan y Ddeddf hon, mae paragraff 1(4) yn diddymu'r cyfeiriadau at y darpariaethau a ddiddymir.
293. Mae paragraff 1(5) yn diwygio adran 53 o Ddeddf 2020, sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol neu ddarpariaeth ganlyniadol mewn cysylltiad â darpariaethau yn y Ddeddf honno. Yr effaith yw dileu cyfeiriadau at y darpariaethau hynny sydd wedi eu diddymu gan y Ddeddf hon. Mae'r effaith hefyd yn golygu na all yr Ysgrifennydd Gwladol wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliannol na darpariaeth ganlyniadol y byddai Gweinidogion Cymru wedi gallu ei gwneud pe na bai'r darpariaethau hynny wedi eu diddymu gan y Ddeddf hon.
294. Mae paragraff 1(6) yn diwygio pŵer Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf 2020 i wneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â darpariaethau yn y Ddeddf honno sy'n dod i rym, er mwyn dileu cyfeiriadau at ddarpariaethau a ddiddymir gan y Ddeddf hon.
295. Mae paragraffau 1(7) ac 1(8) yn diwygio dwy adran arall o Ddeddf 2020 i ddileu cyfeiriadau at ddarpariaethau yn y Ddeddf honno a ddiddymir gan y Ddeddf hon.

## **SCHEDULE 1 - AGRICULTURAL PRODUCTS RELEVANT TO MARKETING STANDARDS PROVISIONS**

286. Schedule 1 is introduced by section 34. It contains the list of agricultural products in respect of which the Welsh Ministers may make regulations under section 34.
287. Paragraphs 1 to 9 operate by reference to the CMO Regulation (defined in section 54); paragraph 10 operates by reference to the Aromatised Wine Regulation as defined in paragraph 11.

## **SCHEDULE 2 - MINOR AND CONSEQUENTIAL AMENDMENTS ETC RELATING TO PARTS 1 TO 3**

288. Schedule 2 is introduced by section 55.

### **Part 1: Amendments, Repeals and Savings Relating to the Agriculture Act 2020**

289. Paragraph 1 makes the amendments to the 2020 Act.
290. Paragraph 1(2) repeals the section of the 2020 Act that introduces Schedule 5 to that Act. Schedule 5 to the 2020 Act makes provision for Wales only and is repealed by this Act (see paragraph 1(9)).
291. Paragraph 1(3) repeals the section of the 2020 Act that provides that certain provisions of the Act relating to Wales expire at the end of 2024, as the provisions in question are repealed by this Act.
292. Paragraph 1(4) omits certain paragraphs from section 52 of the 2020 Act, which introduces Schedule 7 to that Act. Schedule 7 of the 2020 Act amends the CMO Regulation (defined in section 54) in consequence of certain provisions in that Act; since , some of those are repealed by this Act, paragraph 1(4) repeals the references to the repealed provisions.
293. Paragraph 1(5) amends section 53 of the 2020 Act, which confers power on the Welsh Ministers' to make supplementary, incidental or consequential provision in connection with provisions of that Act. The effect is to remove references to those provisions that are repealed by this Act. The effect is also that the Secretary of State cannot make any supplementary, incidental or consequential provision that the Welsh Ministers would have been able to make if those provisions had not been repealed by this Act.
294. Paragraph 1(6) amends the Welsh Ministers' power under the 2020 Act to make transitional, transitory or saving provision in connection with the coming into force of provisions of that Act, so as to remove references to provisions that are repealed by this Act.
295. Paragraphs 1(7) and 1(8) amends two further sections of the 2020 Act to remove references to provisions of that Act that are repealed by this Act..

296. Mae paragraff 1(9) yn diddymu Atodlen 5 i Ddeddf 2020, sy'n gymwys o ran Cymru yn unig.
297. Mae paragraff 1(10) yn diddymu'r diwygiadau canlyniadol a wnaed i'r Rheoliad CMO (a ddiffinnir yn adran 54) gan Rannau 2 a 4 o Atodlen 7 i Ddeddf 2020. Mae'r ddarpariaeth yn Atodlen 3 i'r Ddeddf hon yn disodli'r ddarpariaeth hon.
298. Mae paragraff 2 yn darparu bod rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2020 yn parhau mewn grym er i'r darpariaethau hynny gael eu diddymu, a'u bod yn cael effaith fel pe baent wedi eu gwneud o dan adran 16 o'r Ddeddf hon.

## **Rhan 2: Diwygiadau i Ddeddfau eraill**

299. Mae Rhan 2 yn diwygio pedair Deddf arall i'w gwneud yn ofynnol i ystyried yr adroddiad(au) RhTG (a gyhoeddir o dan adran 6) wrth arfer swyddogaethau penodol (gan gynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud â llunio, mabwysiadu ac adolygu cynlluniau ac adroddiadau eraill).

## **ATODLEN 3 - DIWYGIADAU CANLYNIADOL ETC. I'R RHEOLIAD CMO**

300. Cyflwynir Atodlen 3 gan adran 55. Mae'n diwygio'r Rheoliad CMO (a ddiffinnir yn adran 54), sy'n ymwneud â marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol.

## **Rhan 1: Diwygiadau sy'n ymwneud â Phennod 3 o Ran 2 (ymyrraeth mewn marchnadoedd)**

301. Mae Rhan 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2020 yn datgymhwyso darpariaethau penodol yn y Rheoliad CMO, o ran Cymru, cyhyd ag y bo'r ddarpariaeth bresennol â therfyn amser iddi ynghylch amodau eithriadol yn y farchnad yn Atodlen 5 i Ddeddf 2020 yn para. (Mae'r darpariaethau sydd wedi eu datgymhwyso yn ymwneud ag amodau eithriadol yn y farchnad.)
302. Gan fod y Ddeddf yn disodli'r ddarpariaeth â therfyn amser iddi yn Atodlen 5 i Ddeddf 2020, mae Rhan 1 o Atodlen 3 yn diwygio'r Rheoliad CMO o ganlyniad i hynny mewn perthynas ag ymyrraeth mewn marchnadoedd (gan na fydd y diwygiad a wnaed i'r Rheoliad CMO gan Atodlen 7 i Ddeddf 2020 yn briodol iddo mwyach). Ond, gan nad yw'r diwygiad a wnaed i'r Rheoliad CMO gan Atodlen 7 i Ddeddf 2020 mewn grym eto, mae Atodlen 3 yn darparu (yn Rhan 1) ddiwygiadau canlyniadol amgen i'r Rheoliad CMO.
303. Mae'r diwygiad ym mharagraff 1 yn gwneud darpariaeth sy'n gymwys os bydd paragraff 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2020 wedi ei ddwyn i rym cyn paragraff 1 o Atodlen 3 (ac mae wedi diwygio'r Rheoliad CMO i Gymru er mwyn datgymhwyso Erthyglau 219, 220, 221 a 222 o Ran V o'r Rheoliad CMO i Gymru).

296. Paragraph 1(9) repeals Schedule 5 of the 2020 Act, which applies in relation to Wales only.
297. Paragraph 1(10) repeals the consequential amendments made to the CMO Regulation (defined in section 54) by Parts 2 and 4 of Schedule 7 to the 2020 Act. This provision is replaced by the provision in Schedule 3 of this Act.
298. Paragraph 2 provides that regulations made by the Welsh Ministers under paragraph 2 of Schedule 5 of the 2020 Act remain in force despite the repeal of those provisions and have effect as if they were made under section 16 of this Act.

**Part 2: Amendments to other Acts**

299. Part 2 amends four other Acts to require the SLM report(s) (published under section 6) to be taken into account in the exercise of certain functions (which include functions relating to the preparation, adoption and review of other plans and reports.)

**SCHEDULE 3 - CONSEQUENTIAL AMENDMENTS ETC. TO THE CMO REGULATION**

300. Schedule 3 is introduced by section 55. It makes amendments to the CMO Regulation, (defined in section 54), which relates to markets in agricultural products.

**Part 1: Amendments relating to Chapter 3 of Part 2 (intervention in markets)**

301. Part 2 of Schedule 7 to the 2020 Act disapplies certain provisions of the CMO Regulation, in relation to Wales, for the duration of existing time limited provision about exceptional market conditions in Schedule 5 to the 2020 Act. (The disapplied provisions relate to exceptional market conditions.)
302. Since the Act is replacing the time limited provision in Schedule 5 to the 2020 Act, Part 1 of Schedule 3 amends the CMO Regulation in consequence in relation to intervention in markets (in that the amendment made to the CMO Regulation by Schedule 7 to the 2020 Act will cease to be appropriate). But since the amendment made by Schedule 7 to the 2020 Act to the CMO Regulation is not yet in force, Schedule 3 provides (in Part 1) alternative consequential amendments to the CMO Regulation.
303. The amendment at paragraph 1 makes provision that applies if paragraph 2 of Schedule 7 to the 2020 Act has been brought into force before paragraph 1 of Schedule 3 (and has amended the CMO Regulation for Wales in order to disapply Article 219, 220, 221 and 222 of Part V of the CMO Regulation for Wales).

304. Effaith y diwygiad ym mharagraff 1 yw diwygio'r diwygiad a wnaed i'r Rheoliad CMO gan baragraff 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2020, drwy ddileu'r elfen o'r diwygiad hwnnw â therfyn amser iddi (nid yw'r elfen â therfyn amser iddi yn briodol mwyach gan nad oes terfyn amser i'r ddarpariaeth a wneir gan y Ddeddf ar gyfer amodau eithriadol yn y farchnad). Y canlyniad terfynol yw bod Erthyglau 219, 220, 221 a 222 o Ran V o'r Rheoliad CMO wedi eu datgymhwyso mewn perthynas â chynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru, ar sail benagored.
305. Mae paragraff 2 yn cael yr un effaith, sef datgymhwyso Erthyglau 219, 220, 221 a 222 o Ran V o'r Rheoliad CMO mewn perthynas â chynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru, ar sail benagored. Fodd bynnag, mae strwythur gwahanol i'r diwygiad yn y paragraff hwn, ac ni fydd yn cael effaith os yw'r diwygiad ym mharagraff 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2020 wedi ei gychwyn cyn i Ran 1 o Atodlen 3 gael ei chychwyn.

### **Rhannau 2 a 3: Diwygiadau sy'n ymwneud ag adran 34 (safonau marchnata) ac adran 35 (dosbarthiad carcasau)**

306. Mae Rhan 4 o Atodlen 7 i Ddeddf 2020 yn diwygio erthyglau yn y Rheoliad CMO mewn perthynas â safonau marchnata a dosbarthiad carcasau yng Nghymru.
307. Effaith y diwygiadau ym mharagraffau 4 i 16, ac yn Atodlen 3, yw rhoi cyfeiriadau at y Ddeddf yn lle cyfeiriadau at Ddeddf 2020 yn yr erthyglau perthnasol yn y Rheoliad CMO.

### **Rhan 4: Darpariaeth arbed**

308. Mae paragraffau 17 a 18 yn cadw rheoliadau presennol a wnaed gan y Comisiwn Ewropeaidd o dan y Rheoliad CMO sy'n rheoleiddio dosbarthiad carcasau a safonau marchnata mewn perthynas â chynhyrchion amaethyddol sy'n cael eu marchnata yng Nghymru. Yr effaith yw y bydd y rheoliadau hyn yn parhau i fod yn gymwys, er bod y pwerau y cawsant eu gwneud odanynt wedi eu datgymhwyso yng Nghymru.

### **COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU**

309. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd ar:

[Deddf Amaethyddiarth \(Cymru\) \(senedd.cymru\)](https://www.senedd.cymru)

<b>Cyfnod</b>	<b>Dyddiad</b>
Cyflwynwyd	26 Medi 2022
Cyfnod 1 - Dadl	7 Chwefror 2023
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu - ystyried y gwelliannau	8 Chwefror 2023 - 21 Ebrill 2023
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn - ystyried y gwelliannau	16 Mai 2023
Cyfnod Adrodd - ystyried y gwelliannau	20 Mehefin 2023
Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Senedd	27 Mehefin 2023
Y Cydsyniad Brenhinol	17 Awst 2023

304. The effect of the paragraph 1 amendment is to amend the amendment made to the CMO Regulation by paragraph 2 of Schedule 7 to the 2020 Act, by removing the time limited element of that amendment (the time limited element is no longer appropriate since the provision made by the Act for exceptional market conditions is not time limited). The end result is that Articles 219, 220, 221 and 222 of Part V of the CMO Regulation are disapplied in relation to agricultural producers in Wales, on an open-ended basis.
305. The effect of paragraph 2 is the same: to disapply Articles 219, 220, 221 and 222 of Part V of the CMO Regulation in relation to agricultural producers in Wales, on an open-ended basis. However, the amendment in this paragraph is structured differently and will have effect only if the amendment at paragraph 2 of Schedule 7 to the 2020 Act has not been commenced before Part 1 of Schedule 3 is commenced.

**Parts 2 and 3: Amendments relating to section 34 (marketing standards) and section 35 (carcass classification)**

306. Part 4 of Schedule 7 to the 2020 Act amends articles of the CMO Regulation in relation to marketing standards and carcass classification in Wales.
307. The effect of the amendments in paragraphs 4 to 16, and, of Schedule 3 is to substitute, in the relevant articles of the CMO Regulation, references to the 2020 Act with references to the Act.

**Part 4: Saving provision**

308. Paragraphs 17 and 18 preserve existing regulations made by the European Commission under the CMO Regulation, which regulate carcass classification and marketing standards in relation to agricultural products marketed in Wales. The effect is that these regulations will continue to apply even though the powers under which they were made have been disapplied in Wales.

**RECORD OF PROCEEDINGS IN SENEDD CYMRU**

309. The following table sets out the dates for each stage of the Act’s passage through the Senedd. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the Senedd website at:  
[Agriculture \(Wales\) Act \(senedd.wales\)](https://www.senedd.wales)

<b>Stage</b>	<b>Date</b>
Introduced	26 September 2022
Stage 1 - Debate	7 February 2023
Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments	8 February 2023 – 21 April 2023
Stage 3 Plenary - consideration of amendments	16 May 2023
Report Stage – consideration of amendments	20 June 2023
Stage 4 Approved by the Senedd	27 June 2023
Royal Assent	17 August 2023









a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,  
ac ar gael o:

**Arlein**

**[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)**

**Post, Ffôn ac E-bost**

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

E-bost: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,  
and available from:

**Online**

**[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)**

**Mail, Telephone & E-mail**

TSO


PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070

E-mail: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-348-11973-2



9 780348 119732